Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 26/2026
DYDDIAD CYHOEDDI: 19/03/2026

# Cynyddu'r Gwerth: Sicrhau'r Gwaddol Cynaliadwyedd a Dysgu yn y Gronfa Iach ac Egnïol

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.
This document is also available in English.
OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol **978-1-83715-965-9**

**Cynyddu'r Gwerth: Sicrhau'r Gwaddol**

**Cynaliadwyedd a Dysgu yn y Gronfa Iach ac Egnïol**

Awdur(on): UK Research & Consultancy Services Ltd

Adroddiad Ymchwil Llawn: RCS, (2025). Cynyddu'r Gwerth: Sicrhau'r Gwaddol. Cynaliadwyedd a Dysgu yn y Gronfa Iach ac Egnïol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru
Ar gael yma: https://www.gov.wales/evaluation-healthy-and-active-fund

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

Hoffai'r awduron estyn diolch a mynegi eu gwerthfawrogiad i bawb sy'n ymwneud â'r GIE ar lefel Rhaglen a Phrosiect am eu cefnogaeth a'u cydweithrediad yn ystod y gwerthusiad hwn. Hoffem ddiolch yn arbennig i Dr Eleri Jones, a ddarparodd oruchwyliaeth ledled y gwerthusiad cyfan i bob diben, a bu i'w phroffesiynoldeb a'i doethineb gyfrannu'n sylweddol at ansawdd ein gwaith. Mae unrhyw ddiffygion wrth gwrs yn parhau i fod yn gyfrifoldeb llwyr arnom ni.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Ymchwil Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol,
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol
Llywodraeth Cymru,
Parc Cathays
Caerdydd,
CF10 3NQ
Ebost: Research.HealthAndSocialServices@gov.wales

## Tabl cynnwys


| Tabl cynnwys | Tudalen |
|---|---|
| Rhestr o ffigurau | 2 |
| Rhestr termau | 3 |
| Adran 1: Cyflwyniad: Fframwaith Gwerthuso Cynaliadwyedd y GIE | 4 - 8 |
| Adran 2: Problemau a chanfyddiadau lefel Prosiect | 9 - 15 |
| Adran 3: Problemau a chanfyddiadau lefel Rhaglen | 16 - 24 |
| Adran 4: Manteisio i'r Eithaf ar yr Ased a Sicrhau Gwerth | 25 – 29 |
| Cyfeirnodau | 30 |
| Atodiad 1: Teithiau Cynaliadwyedd y Prosiectau | 31 - 51 |

**Coed Actif Cymru** (Cenedlaethol)
**Babi Actif** (Gogledd orllewin Cymru)
**Balanced Lives for Care Homes** (De orllewin Cymru)
**BeActive RCT** (Rhondda Cynon Taf)
**Cyfeillion Cerdded Cymru** (De / De ddwyrain Cymru)
**Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd** (De/De ddwyrain Cymru a'r Cymoedd)
**Pum Ffordd at Les** (Fflint/Wrecsam)
**Tyfu Gyda'n Gilydd** (De/De ddwyrain Cymru)
**HAPPy** (Casnewydd)
**Healthy & Active Newport** (Casnewydd)
**Corff Iach – Meddwl Iach** (Caerdydd)
**Agor Drysau i'r Awyr Agored** (Gogledd orllewin Cymru)
**Llysgenhadon Chwarae** (Caerdydd a'r Fro)
**Sporting Memories** (De Cymru)
**Super-Agers** (Partneriaeth Cwm Taf)
**Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru** (Cenedlaethol)
**Dewch i Gerdded Gorllewin Cymru** (Gorllewin a Chanolbarth Cymru)

**Rhestr o ffigurau**


| | |
|---|---|
| **Ffigur 1** | **Ffynhonnell Llwybrau at Gynaliadwyedd: RCS (2024)** |
| **Ffigur 2** | **Cynaliadwyedd a ragwelir gan Brosiectau** |

**Rhestr termau**

**EoI Datganiad o ddiddordeb**

**CIE / GIE Cronfa Iach ac Egnïol**

**IPAQ Holiadur Gweithgaredd Corfforol Rhyngwladol**

**LA Awdurdod Lleol**

**LTO Sefydliad Lleol y gellir Ymddiried ynddo**

MET Mae MET yn fesur a ddefnyddir ar gyfer yr IPA. Mae'n ymwneud â phwyso a mesur pob math o weithgaredd yn ôl
**ei gofynion ynni (mae METs yn lluosrifau o gyfradd fetabolig gorffwys) i gynhyrchu sgôr mewn MET-munudau. Mae rhagor o wybodaeth dechnegol ar gael yma.**

**PAQ-C Holiadur Gweithgarwch Corfforol i Blant**

**ICC Iechyd Cyhoeddus Cymru**

**RCS UK Research & Consultancy Services Ltd**

**UBC Uwch Berchennog Cyfrifol**

**SROI Elw Cymdeithasol ar Fuddsoddiad**

**CC Chwaraeon Cymru**

**SAC Swyddfa Archwilio Cymru**

**CGGC Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru**

**WEMWBS Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh**

**LlC Llywodraeth Cymru**

# 1. Cyflwyniad: fframwaith gwerthuso cynaliadwyedd y GIE

1.1 Roedd y Gronfa Iach ac Egnïol ('y GIE) yn Rhaglen £5.9miliwn a ariannodd 17 prosiect amrywiol[1] a chymunedol i raddau helaeth ledled Cymru rhwng 2019 a 2023. Nod y gronfa oedd ymchwilio ystod o wahanol ffyrdd i gynorthwyo pobl mewn grwpiau targed allweddol i hybu eu hiechyd meddwl a chorfforol drwy fyw bywydau iach ac egnïol. Sefydlwyd y GIE, a oedd yn rhan o'r Rhaglen Lywodraethu, mewn dau ymrwymiad Maniffesto ac roedd yn gydweithrediad arloesol rhwng pedwar[2] partner cenedlaethol. Cafodd ei gwerthuso'n helaeth ar lefelau Rhaglen a Phrosiect, a darganfuwyd ar y cyfan ei bod wedi'i datblygu a'i gweithredu'n effeithiol (RCS, 2024).

1.2 Pan ddaeth y GIE i ben, cafodd RCS eu comisiynu i werthuso ei 'chynaliadwyedd'. Cyflawnwyd hyn ar lefel Rhaglen a Phrosiect, ac yn y ddau achos bu i'r gwerthusiad grybwyll fframweithiau cysyniadol a ffurfiwyd yn sgil adolygiadau helaeth o'r llenyddiaeth berthnasol. Cafodd 'cynaliadwyedd' ar gyfer Prosiectau ei asesu yn erbyn cyfres o gategorïau gan gynnwys newid ymddygiad mewn buddiolwyr, parhad ymdrechion gwirfoddolwyr a newidiadau polisi ar lefel leol. Ar gyfer y lefel Rhaglen, bu i 'cynaliadwyedd' ganolbwyntio ar faint a chymeriad dysgu a throsglwyddo polisi.

### Cynaliadwyedd a'r GIE

1.3 Bu i werth y GIE o ran y buddion hirdymor ar lefel y rheiny oedd yn cymryd rhan, sefydliadol a pholisi ddibynnu'n rhannol ar gynaliadwyedd y Prosiectau a rhoi dysgu o'r GIE ar waith yn y maes polisi.


1.4 Roedd cynaliadwyedd yn ystyriaeth gynnar ar gyfer y Rhaglen a chyfeiriwyd ati yn nogfennau'r Rhaglen. Dim ond Prosiectau sy'n arddangos parhad ariannu neu'r gallu i adael gwaddol gafodd eu hariannu. Nod y tapr cyllid yn y flwyddyn olaf oedd annog ystyriaeth gynnar o lwybrau ymadael a dirwyn Prosiectau i ben, ac roedd canlyniadau ar gyfer gweithgareddau parhaus a chynaliadwyedd yn thema gylchol yn nyluniad a gweithrediad y Rhaglen CIE.

---

[1] Gwelwch ein prif Adroddiad Gwerthuso, RCS, 2024. Roedd 17 yn wreiddiol.
[2] Roedd tri phartner yn yr ystyr bod dau o Lywodraeth Cymru. Yn ymarferol, fodd bynnag, roedden nhw'n gweithredu fel pedwar, gan gynnwys rhannu cyllideb ar draws ffiniau yn Llywodraeth Cymru.

1.5 Gwnaethom ganolbwyntio ar gynaliadwyedd fel thema benodol yn ein gwerthusiad. Yn rhyfeddol, ychydig iawn o ddeunydd a gawsom yn llenyddiaeth academaidd neu bolisïau'r DU am y mater yn y math hwn o gyd-destun. Mae llawer o'r llenyddiaeth bresennol yn ymwneud â phrosiectau cymorth tramor.  Dywedodd un awdur allweddol fod sicrhau cynaliadwyedd mewn gwirionedd yn golygu gofalu bod nodau'r prosiect yn parhau i gael eu cyflawni trwy weithgareddau sy'n gyson â'r amodau a'r adnoddau cyfredol sydd ar gael (Riggs 2012). Roedd un arall o'r farn ei fod yn golygu parhau i berfformio a chyflawni buddion prosiect i'r prif grŵp targed ar ôl i gyllid gan roddwr ddod i ben (fundsforNGOs 2025). Efallai y bydd yn bosibl cyflawni effeithiau parhaol drwy roi arferion newydd ar waith sy'n dod yn rai 'prif ffrwd' neu i sicrhau newid anghildroadwy – er enghraifft trwy newid strwythurau neu fframweithiau cyfreithiol. Yn seiliedig ar y llenyddiaeth, cafodd nifer o haenau neu lwybrau at gynaliadwyedd eu nodi yn ein hadroddiad gwerthuso'r rhaglen CIE, fel y dangosir isod.

**Ffigur 1: Llwybrau at gynaliadwyedd**




Ffynhonnell: RCS (2024)

**Ein hymagwedd a dulliau**

1.6 Mae'r adroddiad hwn yn darparu asesiad o gynaliadwyedd a gwaddol Prosiectau, yn ogystal â chynaliadwyedd deilliannau'r Prosiectau, mwy na 12 mis ar ôl i gyllid y

GIE ddod i ben, gan gynnwys a ddylanwadodd y Gronfa ar eu cynaliadwyedd a sut. Fe wnaethom asesu gwaddol a chynaliadwyedd y buddion o ganlyniad i'r GIE yn drylwyr.

1.7 Bu rhywfaint o ffocws eisoes ar gynaliadwyedd yn y gwerthusiad hyd yma, ac roedd hyn yn llwyfan cryf i ddatblygu'r asesiad cynaliadwyedd hwn yn dilyn y GIE. Fel sydd wedi'i grybwyll yn Adroddiad Terfynol y prif werthusiad (RCS, 2024), roedd hyn yn cynnwys dadansoddiad o'r ceisiadau gwreiddiol, canlyniadau dau rownd o gyfweliadau lle'r oedd cynaliadwyedd yn ffocws yn ystod prif Werthusiad y Rhaglen, a'r dogfennau Prosiect perthnasol. Bu inni gynnwys crynodeb o fwriadau cynaliadwyedd y Prosiectau yng Nghrynodebau'r Prosiectau a atodwyd i'r Adroddiad Terfynol.

1.8 Ar gyfer y gwerthusiad cynaliadwyedd dilynol, bu inni gynnal cyfweliadau ychwanegol ar lefel Prosiect a Rhaglen, ac adolygiad dogfen ar lefel Prosiect (nid oes unrhyw ddogfennaeth berthnasol ar lefel rhaglen ers yr Adroddiad Terfynol). Cafodd yr holl gyfweliadau a'r adolygiad dogfen eu cynnal rhwng grŵp o dri o'r tîm ymchwil gwreiddiol a oedd ynghlwm â'r gwerthusiad o'r cychwyn cyntaf a drwy gydol y broses, ac a oedd yn gyfarwydd iawn â'r deunyddiau. Cynhaliodd pedwerydd aelod o'r tîm, a oedd unwaith eto wedi bod ynghlwm â'r broses drwyddi draw, sicrwydd her ac ansawdd ar y fethodoleg wnaethom ni roi ar waith a'r adroddiadau drafft a gafodd eu llunio. Cafodd y fethodoleg a'r dull eu cyflwyno i arweinydd gwerthuso Llywodraeth Cymru ac aelodau o dîm y GIE yn Llywodraeth Cymru i'w adolygu a'u cymeradwyo cyn eu cwblhau.

**Lefel prosiect**

1.9 Bu inni fwrw golwg ar 'gynaliadwyedd' yn ei ffurfiau niferus, fel sydd wedi'i grybwyll yn y categorïau uchod. Bu inni adolygu cynaliadwyedd ar lefel Prosiect drwy lens 'cylch bywyd', o ddechrau'r prosiect i waddol ar ôl y prosiect, gan ymchwilio sut bu i'r Prosiect lunio cynaliadwyedd i gychwyn, sut y gallai hynny fod wedi newid a datblygu dros amser (ac yn enwedig trwy COVID-19) a'r deilliant yn dilyn y cyfnod ariannu. Bu inni gynnal cyfweliadau dwys (ar-lein yn bennaf) yn ystod hydref 2024

gyda gweithredwyr allweddol ym mhob un o'r 16 Prosiect[3], a hefyd adolygu dogfennaeth berthnasol, yn enwedig lle'r oedd prosiectau wedi cwblhau eu hadroddiad cynaliadwyedd ôl-ariannu eu hunain (a wnaeth rhai). Ni wnaethom gyfweld â phartneriaid, yn rhannol oherwydd diffyg amser, adnoddau ac argaeledd, ond hefyd oherwydd bod gennym ddigon o hyder yn y dystiolaeth cyfweliadau a dogfennau i ffurfio barn, yn enwedig gan ddwyn i ystyriaeth y sylfaen tystiolaeth eang a dwfn sydd eisoes ar waith yn gyffredinol ac mewn perthynas â chynaliadwyedd yn benodol.

1.10 Ynghyd â'r dadansoddiad cyffredinol sydd wedi'i gyflwyno yma, rydym yn cynnwys adran ychwanegol i ategu pob un o'r Crynodebau Prosiect unigol wnaethom ni eu llunio ar gyfer yr Adroddiad Gwerthuso Terfynol i gynnwys cyfrif llawnach o'u taith cynaliadwyedd (gwelwch yr Atodiad).

**Lefel rhaglen**

1.11 Ar lefel Rhaglen bu inni ganolbwyntio ar ddysgu a throsglwyddo polisïau. Roedd hyn yn ymwneud yn rhannol â dysgu o'r Prosiectau gyda chymhwysedd neu oblygiadau ehangach, ond hefyd ynghylch agweddau o broses y Rhaglen ei hun. Bu inni gynnal cyfweliadau gyda saith uwch weithredwr o bob un o'r pedwar partner cenedlaethol a wnaeth ddatblygu a chynnal y GIE ar y cyd. Fe wnaethom dynnu sylw at bedwar galluogwr dysgu a throsglwyddo polisi:

- Mae'n rhaid sicrhau bod dysgu sy'n ddigonol i'w gywain a'i drosglwyddo
- Mae'n rhaid gofalu bod grŵp priodol o ddysgwyr / trosglwyddwyr yn bresennol
- Mae'n rhaid sicrhau bod llwybrau trosglwyddo lle gellir trosglwyddo, gweithredu a helaethu dysgu.
- Mae'n rhaid i ddulliau i alluogi 'cof sefydliadol' ar lefel Prosiect a pholisi fod ar waith.

[3] Gan gynnwys CBS Pen-y-bont ar Ogwr a ddaeth i ben blwyddyn yn gynharach na'r gweddill oherwydd na wnaethon nhw fanteisio ar gyllid estynedig

1.12 Roedd y ffocws mewn perthynas â dysgu polisïau yn bennaf ar brosesau a dulliau Llywodraeth Cymru oherwydd prif ddiben y GIE oedd cynhyrchu gwersi a dysgu mewn ymateb i Ymrwymiadau'r Maniffesto a Rhaglen Llywodraeth Cymru.

1.13 Mae gwerthuso'n ymwneud yn rhannol â sicrhau atebolrwydd ar gyfer gwariant cyhoeddus ac yn rhannol ynghylch dysgu gwersi sy'n fodd i brosiectau / rhaglenni gael eu mireinio dros amser. Fodd bynnag, yr effaith ddichonol fwyaf gwerthfawr yn aml yw gellir ymgorffori dysgu mewn prosesau datblygu polisi yn y dyfodol, a chaiff cyfleoedd ar gyfer hyn eu colli'n aml. Gan hynny, rydym yn achub ar y cyfle i fyfyrio ar gynaliadwyedd, yn enwedig oherwydd cafodd y GIE ei dylunio'n benodol i fod yn Rhaglen arloesol / arbrofol.

**Yr adroddiad hwn**

1.14 Mae Adran 2 yr Adroddiad hwn yn bwrw golwg ar broblemau a chanfyddiadau ar lefel Prosiect, ac Adran 3 yn bwrw golwg ar lefel Rhaglen. Yna yn Adran 4 rydym yn dwyn i ystyriaeth sut y gallai cynaliadwyedd fod wedi'i gryfhau ar y ddwy lefel ac yn darparu argymhellion. Mae'r Atodiad yn cynnig crynodeb o daith cynaliadwyedd pob Prosiect. Efallai y bydd dysgu hefyd nid yn unig ar gyfer polisïau yn y dyfodol yng Nghymru ond mewnwelediadau gan y GIE y gallai Cymru eu rhannu gyda chenhedloedd eraill yn y DU a thu hwnt.

## 2. Problemau a chanfyddiadau lefel prosiect

### Cynaliadwyedd a'r lefel prosiect yn ystod cyllid y GIE

2.1 Gwnaethom archwilio safbwyntiau Prosiectau ar gynaliadwyedd yn 2021 ac ail-ymweld â hyn yn 2022. Cafodd y Tabl isod ei llunio gan ddefnyddio tystiolaeth a gasglwyd ac a ddadansoddwyd ym mhrif Werthusiad y Rhaglen (gwelwch RCS, 2024). Mae'n dangos 'y Tebygolrwydd y bydd gweithgaredd Prosiect yn cael ei gynnal mewn gwahanol ffyrdd'. Dyma sgorau'r Prosiectau 1 = annhebygol iawn i 5 = tebygol iawn.

**Ffigur 2: Cynaliadwyedd a ragwelir gan Brosiectau**




2.2 Fel y gwelir, roedd y Prosiectau'n gymharol obeithiol ynghylch llinellau cynaliadwyedd posibl yn 2021 ac yn 2022, ac erbyn hynny roedd llawer ohonyn nhw wedi cychwyn datblygu cynlluniau penodol ar gyfer gwaddol a chynaliadwyedd. Roedden nhw'n disgwyl cael effaith barhaol ar bolisïau ac ymarfer, gan hefyd gynnal gweithgarwch ar lefel unigolion sy'n cymryd rhan a gwirfoddolwyr. Cafodd

cyflawni cynaliadwyedd drwy ymgorffori gweithgareddau mewn rhaglenni gwaith ehangach, neu ennill cyllid amgen eu hystyried yn rhesymol debygol.

2.3 Ar lefel Rhaglen yn ystod y GIE, cafodd dysgu o'r Prosiectau ei gywain mewn papur crynodeb[4] ar gyfer Bwrdd y Prosiect wedi'i lunio o'r Adroddiadau Uchafbwyntiau Prosiectau rheolaidd. Ym mis Hydref 2022, cafodd Adroddiad Crynodeb Cynaliadwyedd Prosiectau [5] ei lunio, gan ymdrin â chyflwyniadau o adroddiadau Cynnydd Blynyddol y Prosiect.

**Cynaliadwyedd prosiectau'n dilyn y GIE**

2.4 Roedd tystiolaeth helaeth o gynaliadwyedd drwy gyfweliadau a dogfennaeth ledled y Prosiectau yn eu cyfanrwydd, a ledled pob un o'r prif gategorïau cynaliadwyedd, gan gynnwys:

- Newid ymddygiad parhaus gan y rheiny oedd yn cymryd rhan
- Parhad o ran gweithgareddau o dan arweiniad gwirfoddolwyr
- O ganlyniad i COVID-19, cynhyrchwyd rhagor o ddeunydd ar-lein / ffisegol, sydd wedi cefnogi cynaliadwyedd nifer o weithgareddau
- Datblygwyd hyfforddiant ardystiedig a heb ardystiad ac mae'n parhau i fod ar waith ar gyfer y rheiny sy'n cymryd rhan a'r ymarferwyr
- Sicrhau bod y cyllid yn parhau
- Datblygu sgiliau a newid ymddygiad gan weithlu'r sefydliadau nawdd
- Newid ymddygiad sefydliadol a ymgorfforodd dysgu a chyfrannu tuag at gynaliadwyedd
- Newidiadau polisi a phrif ffrydio o fewn y sefydliadau nawdd a hefyd mewn sefydliadau partner
- Ymgorffori gweithgareddau'r GIE wrth ddarparu gwasanaeth ehangach, neu lle'r oedd profiadau'r GIE yn agwedd allweddol o ran ffurf a chyfeiriad datblygu gwasanaeth yn y dyfodol gan sefydliadau nawdd
- Cyfraniadau tuag at ddatblygu polisi ehangach, yn enwedig y Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Cenedlaethol.

[4] Papur Bwrdd Prosiect: 2022.03.28 - DOC 4 – Bwrdd Prosiect y Gronfa Iach ac Egnïol – Crynodeb o Adroddiadau Uchelgeisiau Prosiect y GIE Chwefror 2022

[5] Papur Bwrdd Prosiect: 2022.10.10 - DOC 4 – Y Gronfa Iach ac Egnïol – Adroddiad Crynodeb Cynaliadwyedd y Prosiect

2.5 Bu i gynrychiolwyr y prosiect briodoli rhai buddion unigryw i'r GIE ymhlith nifer o raglenni eraill a ariennir yr oedden nhw wedi'u profi. Yn benodol, roedden nhw o'r farn fod y GIE wedi:

- Galluogi i brosiectau presennol ddatblygu a chasglu data ar angen, er mwyn llywio ceisiadau pellach am gyllid grant
- Darparu ysgogiad a sbardun ar gyfer datblygu sefydliadau presennol
- Darparu'r gallu i fodloni'r galw hysbys
- Galluogi datblygu perthnasau cryfach gyda Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Galluogi meithrin perthnasau cryfach ac ymddiriedaeth ar lefel leol gyda gwahanol bartneriaid ac i raddau a aeth y tu hwnt i 'bartneriaethau arferol'.

2.6 Mae tystiolaeth helaeth o'r rhain i gyd yn y Crynodebau Prosiect estynedig, y cyfweliadau, ac yn yr adroddiadau cynaliadwyedd ar ôl y GIE y bu i rai o'r Prosiectau eu paratoi. Mae rhai ohonyn nhw hefyd yn gwarantu enghreifftiau pellach yma.

**Newidiadau ymddygiad parhaus ymhlith y buddiolwyr**

2.7 Ar lefel gyffredinol, nid oes data digonol i grybwyll â chywirdeb maint a chymeriad newid ymddygiad parhaus ymhlith buddiolwyr. Bu i werthusiadau diwedd y prosiectau awgrymu gwell lles ac ychydig o gynnydd mewn lefelau gweithgarwch corfforol, ond doedd gan y Prosiectau ddim y gallu a'r adnoddau i barhau i fonitro hyn, hyd yn oed gan roi heriau casglu ac ansawdd data o'r neilltu. Bu i rai unigolion barhau i gymryd rhan mewn rhai Prosiectau am sawl blwyddyn. Maen nhw wedi llunio ystod o astudiaethau achos, fideos a straeon sy'n amlygu llwyddiannau o'r fath. Mewn rhai achosion, mae unigolion wedi mynd rhagddi i wirfoddoli ac arwain sesiynau'n annibynnol. Cysylltiadau a buddion cymdeithasol oedd un o brif ddeilliannau'r rheiny oedd yn cymryd rhan, gyda'r unigolion yn meithrin cysylltiadau cymdeithasol a chreu grwpiau WhatsApp, yn cwrdd i gymryd rhan mewn gweithgareddau heb gymorth y Prosiect, a mynychu sesiynau â thâl amgen.

2.8 Roedd enghreifftiau o fuddion cyflogaeth anfwriadol i'r rheiny oedd yn cymryd rhan, a chynnal hyfforddiant ychwanegol y tu hwnt i'r disgwyl hwnnw, grwpiau o

hyfforddwyr cysylltiedig yn cael eu cynnal, a gwaddol o arweinwyr wedi'u hyfforddi'n briodol a chymwysterau achrededig ymhlith y partneriaid.

**Cyflawni gweithgareddau prosiect y GIE yn barhaus**

2.9 Mae hyn wedi bod yn llwyddiant nodedig. Mae bron pob un o'r Prosiectau'n parhau i gyflawni o leiaf rhai o'r gweithgareddau wnaethon nhw eu gweithredu drwy'r GIE. Mae yna enghreifftiau o grwpiau gweithgareddau a chymunedau sydd bellach yn hunan-gynhaliol ac o dan arweiniad gwirfoddolwyr yn gyfan gwbl, megis pêl-droed cerdded, grwpiau cerdded, nofio gwyllt, gweithgareddau awyr agored a grwpiau a chlybiau cyfansoddedig yn ffurfio.

2.10 Mae sesiynau eraill 'y GIE' yn parhau i gael eu cefnogi gan sefydliadau Prosiect y GIE neu sefydliadau partner a oedd ynghlwm â'r Rhaglen, gan gynnwys ioga wythnosol, teithiau cerdded iechyd, sesiynau nofio a sesiynau hyfforddiant. Mae yna hefyd dystiolaeth o staff Prosiectau'r GIE yn cychwyn gweithgareddau newydd, cysylltiedig megis prynhawniau lles, a chynnig ystodau ehangach o sesiynau blasu i ennyn diddordeb newydd a sicrhau bod yr unigolion presennol yn parhau i gymryd rhan. Mae nifer o gyrsiau hyfforddi yn parhau, rhai gyda'r nod o gynhyrchu incwm drwy bartneriaid yn cymryd rhan. At hyn, bu i nifer o Brosiectau ddatblygu a chyhoeddi deunydd hyfforddi a gwybodaeth sy'n hysbysu ac yn gymorth i gynnal gweithgareddau.

2.11 Mae tystiolaeth ymatebwyr y Prosiectau ac ein dadansoddiad ni yn awgrymu y bydd angen lefel sylfaenol o gyllid bron bob amser ar gyfer cydlynu, cydweithio gyda, hyfforddi a chefnogi gwirfoddolwyr, ac mae angen gweinyddiaeth gyffredinol i gynnal y gweithgareddau. Mae sawl Prosiect wedi ennill cyllid i allu parhau i gynnal eu gweithgareddau CIE. Fodd bynnag, mae grantiau o'r fath wedi bod yn rhai tymor byr yn bennaf. O ganlyniad, mae natur 'stop-cychwyn' y cyflwyniad, trosiant staff posibl, a cholli dilyniant i gyd yn gwanhau cynaliadwyedd, yn enwedig wrth gydweithio gyda grwpiau sy'n anodd eu cyrraedd.

**Newid ymddygiad sefydliadol a'r gweithlu**

2.12 Dangosodd nifer o brosiectau ddefnydd parhaus o'r sgiliau gweithlu a ddatblygwyd yn ystod y rhaglen CIE. Bu iddyn nhw barhau i ddefnyddio'r dysgu yn eu gwaith

dydd i ddydd. Ymhlith yr enghreifftiau roedd meddu ar sgiliau gwell i drin a thrafod gweithio mewn partneriaeth, a datblygu llwybrau rhyng-gyfeirio ledled cymunedau o ddarparwyr a gwasanaethau i gyfeirio unigolion sy'n cymryd rhan at y cyfleoedd priodol. Adroddodd Prosiectau bod nifer o staff wedi datblygu gwell dealltwriaeth o ymgysylltu gyda'r gymuned a sut i weithio gyda gwahanol fathau o sefydliadau i gyrraedd cynulleidfaoedd targed newydd. Cafodd sgiliau meddal, ymdrin â gwahanol fathau o bersonoliaeth, trin a thrafod y ffordd orau o gydweithio pan fo gan sefydliadau gwahanol systemau a lefelau o adnoddau eu nodi.

2.13 Roedd yna hefyd sgiliau digidol newydd o ran cymryd rhan mewn cyfarfodydd ar-lein, cyflymu prosesau casglu data gyda ffurflenni ar-lein, a'r gallu i feithrin cyswllt mwy rheolaidd gyda phartneriaid mewn gwahanol ranbarthau. Aeth nifer o Brosiectau ati i gyflawni'n ddigidol yn ystod y pandemig COVID-19 gan barhau i elwa o'r broses ar ôl COVID-19 ac ar ôl i'r GIE ddod i ben. Mae cynigion gweithgarwch corfforol a lles anghysbell wedi'u datblygu, a gyrhaeddodd gynulleidfa llawer ehangach na'r hyn a ragwelwyd, ac mae rhai o'r deunydd i gefnogi cadw'n heini yn dal i fod yn adnoddau ar-lein y gallai unrhyw un fanteisio arnyn nhw.

2.14 Mae agweddau ar y Rhaglen hefyd yn ennyn newid. Bu'r pwyslais ar gynaliadwyedd yn ystod y broses werthuso ysgogi mwy o fyfyrio a meddwl am gynaliadwyedd nag a allai fod wedi bod yn wir. Mewn un achos, bu i'r GIE ysbrydoli 'damcaniaeth newid' i fod yn rhan o bob rhaglen strategol ar gyfer un sefydliad, ynghyd â sesiynau dysgu ar y cyd rheolaidd.

**Ymgorffori gweithgareddau'r GIE wrth ddarparu gwasanaeth ehangach**

2.15 Mae rhai Prosiectau wedi canfod bod rhai o'u partneriaid a hyd yn oed darparwyr eraill wedi gwneud newidiadau i'w gwasanaethau yn sgil profiadau sy'n ymwneud â'r GIE, ac wedi ymgorffori cyflwyno sesiynau yn eu gwasanaethau ynghyd ag ymgorffori rhannau o weithgareddau'r Prosiect yn eu cynigion prif ffrwd eu hunain. Mae rhai Prosiectau wedi creu neu gynnal swydd llawn amser parhaol i barhau gyda gweithgareddau'r GIE, ac mae eraill wedi cynnal swyddi dros dro i sicrhau na chaiff dysgu ei golli.

2.16 Mae Prosiectau wedi rhannu dysgu drwy ddefnyddio canfyddiadau gwerthuso mewn digwyddiadau rhwydweithio a chyhoeddi eu hadroddiadau gwerthuso eu hunain. At hyn, mae partneriaethau, gweithgorau a rhwydweithiau a ddatblygwyd drwy'r GIE wedi'u cynnal hefyd i raddau, ac wedi galluogi cydweithio a rhannu mewnwelediadau ehangach.

**Dylanwad polisi:**

2.17 Mae nifer o'r Prosiectau wedi'u 'cynnal' drwy ddysgu a throsglwyddo polisi, naill ai i rannau eraill o'r sefydliad eu hunain, neu i sefydliadau eraill. Ynghlwm â hyn, cafodd strategaethau llawer mwy eang eu datblygu ar gyfer sefydliadau cenedlaethol gan Brosiect CIE lleol. Mae hefyd yn cynnwys cyfraniad ar lefel genedlaethol i'r Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol. Mae dylanwadu wedi ymestyn i weithio â ffocws gyda chyrff cenedlaethol, cyfrannu at sesiynau'r Senedd a hefyd dylanwadu ar bartneriaid awdurdod lleol i fabwysiadu gweithgareddau sydd wedi'u creu drwy'r GIE wedi i gyllid y GIE ddod i ben. Mae cydweithio estynedig gydag ystod o gyrff cyhoeddus wedi'i sefydlu mewn rhai achosion, gan gynnwys trosglwyddo adnoddau hyfforddiant. Yn ychwanegol i hyn, mae Prosiectau'r GIE wedi helpu i ysgogi syniadau newydd, wedi'u hategu gan enghreifftiau ymarferol, megis o ran defnydd yr awyr agored fel cyfrwng allweddol ar gyfer iechyd cymunedol.

**Beth wnaeth ysgogi'r gwaddolau eang hyn?**

2.18 Yn ein hasesiad, ac yn sgil tystiolaeth y cyfweliadau, dyma'r agweddau wnaeth alluogi'r lefel a'r ystod hwn o gynaliadwyedd:

- Gofyniad cynnar y GIE i Brosiectau ddwyn i ystyriaeth a datgan eu hymagwedd tuag at gynaliadwyedd
- Penderfynoldeb y Prosiectau i adael gwaddol cadarnhaol a pharhaol
- Roedd y GIE yn canolbwyntio'n gryf ar ddeilliannau yn hytrach nac ar weithgareddau penodol yn unig. Gan hynny, roedd modd i brosiectau addasu eu huchelgeisiau yn ystod eu 'teithiau' cynaliadwyedd wrth iddyn nhw ennill profiad, ac, yn arbennig, wrth iddyn nhw addasu i amodau COVID-19 er mwyn llunio gwahanol ffyrdd o gyflawni eu hamcanion

- Bu i brosiectau a wnaeth sefydlu trefniadau dysgu mewnol systematig elwa ohonynt yn sylweddol. Roedd meddu ar rolau a chyfrifoldebau penodol ar gyfer dysgu yn alluogwr allweddol.
- Y ffocws ar gynaliadwyedd wrth gasglu tystiolaeth gwerthuso ac astudiaethau thematig y Rhaglen CIE.

2.19 O safbwynt y Prosiectau, roedd diffyg cymorth sylweddol o lefel Rhaglen i gefnogi cynaliadwyedd.

2.20 Serch hynny, roedd ystod a graddfa cynaliadwyedd sylweddol. Bu i faint y dysgu posibl yn sgil y Prosiectau, olygu ei bod yn bwysig iawn sicrhau bod cyfryngau sylweddol i gyfleu'r dysgu hwnnw fel llwybrau effeithiol i'w drosglwyddo, ei fireinio a'i helaethu. Fel y gwelir yn Adran 3, nid oedden nhw mor gryf ag y gallent ac y dylent fod.

# 3. Problemau a chanfyddiadau lefel rhaglen

### Dysgu a'r lefel rhaglen yn ystod y GIE

3.1 Ar y lefel Rhaglen bu inni ymdrin â 'chynaliadwyedd' o ran dysgu a throsglwyddo polisïau, ac roedd dwy brif agwedd ar hyn. Yn gyntaf, roedd gwersi yn ymddangos yn sgil y Prosiectau CIE, a'u perthnasedd i unrhyw broblemau polisi ehangach a/neu'r dymunoldeb i fanteisio arnyn nhw i lywio ymyraethau tebyg eraill. Cafodd adroddiad crynodeb ei baratoi[6] ar gyfer y Bwrdd Prosiect ar wersi o waith y Prosiectau, a chafodd rhywfaint o ddysgu ei rannu mewn digwyddiadau a gynhaliwyd yn ystod hanner cyntaf y Rhaglen ar gyfer dysgu rhwng Prosiectau, er enghraifft ar agweddau o ran gwerthuso a chynaliadwyedd. At hyn, cyhoeddwyd adroddiadau gwerthuso ar broses y GIE a damcaniaeth newid y GIE, ac roedd adroddiadau dros dro ar gynnydd ym mlynyddoedd canolradd y Rhaglen. Fodd bynnag, ni wnaethant ddarparu man cychwyn i unrhyw ledaeniad ehangach yn ystod y Rhaglen a nodwyd, er bod opsiynau i gefnogi cynaliadwyedd a dysgu ymhellach yn cael eu trafod yn rheolaidd yng nghyfarfodydd y Bwrdd Prosiect a gynhaliwyd, ac a gafodd eu dwyn i ystyriaeth yn erbyn argaeledd adnoddau.

3.2 Yn ail, roedd gwersi i'w casglu o strwythur y Rhaglen a'r broses ei hun. Yn nyddiau cynnar y Rhaglen, cafodd dysgu ar rai o'r agweddau hyn ei archwilio'n systematig, yn bennaf trwy ddau ddarn cychwynnol o waith gwerthuso rhaglenni i'r broses CIE (RCS, 2021b) a Damcaniaeth Newid y GIE (RCS, 2021a). Cafodd y rhain eu dwyn i ystyriaeth gan Fwrdd Prosiect y GIE, ac yn sicr roedd yr adroddiadau a'r profiadau y gwnaethon nhw holi amdanyn nhw yn addysgiadol ar gyfer gweithredwyr ar lefel Rhaglen, yn enwedig ynghylch thema cydweithio rhwng partneriaid cenedlaethol. Cafodd y GIE ei hystyried – ac mae'n dal yn cael ei ystyried gan lawer – yn unigryw mwy neu lai o ran dyfnder a chymeriad y cydweithio hwnnw. Fodd bynnag, doedd dim ymelwa systematig neu strwythuredig o'r dysgu hwn, na throsglwyddo mewn mannau eraill.

[6] Yn seiliedig ar Adroddiadau Uchafbwyntiau. Gwelwch Troednodyn 4.

3.3 Y canlyniad net oedd bod y dysgu a'r trosglwyddo polisïau yn ystod y Rhaglen yn oddefol a ddim yn ddigon cryf, a chafodd hyn ei adlewyrchu ym marn y gweithredwyr lefel Rhaglen. Bu i rai gwestiynu a oedd llawer iawn, ac roedd eraill yn ei ystyried fel dichonoldeb heb ei gyflawni eto, gan gydnabod bod y dull meddwl am 'gynaliadwyedd' hyd yn oed wedi'i dan-ddatblygu'n gymharol yn ystod dyddiau cynnar y rhaglen ei hun. Roedden nhw'n gallu gweld nad oedd llawer o ymdrech wedi'i wneud o ran y ddwy agwedd o gynaliadwyedd fel sydd wedi'i ddisgrifio uchod. Roedd eraill o'r farn bod y Prosiectau wedi arddangos graddiadwyedd, dyblygrwydd a chynaliadwyedd, ond bod y dystiolaeth honno heb ei defnyddio a'i throsglwyddo mewn ffordd systematig (RCS, 2024).

3.4 Y cyd-destun pwysig yw bod y GIE wedi'i dylunio'n benodol fel cynllun prawf ac arbrofol, gyda dysgu ymhlith ei phrif amcanion. Mae hyn yn golygu bod angen iddo ganolbwyntio ar gynaliadwyedd a dysgu o'r cychwyn cyntaf a drwy gydol y rhaglen. Mewn byd delfrydol, byddai gweithredwyr y Rhaglen wedi adrodd yn ôl i'r Prosiectau ynghylch sut roedd y dysgu roedden nhw wedi'i gynhyrchu'n cael ei ddefnyddio a'i drosglwyddo i feysydd eraill, neu wedi sicrhau eu bod nhw ynghlwm â'r broses. Yn yr achos hwn, byddai Prosiectau wedi teimlo'n fwy gwerth chweil ar lefel Rhaglen. Gallai hyn fod wedi'u harfogi gydag enghreifftiau pellach o'r effaith ehangach y gallent ei ddefnyddio yn eu hadroddiad lleol a'u cydweithio ac wedi gallu cynnig cymhelliant iddyn nhw gyfrannu dysgu / cysylltiadau pellach mewn meysydd polisi y tu hwnt i amserlen y GIE.

**Dysgu a throsglwyddo polisïau ar ôl y GIE**

3.5 Bu inni ymdrin â'r mater mewn cyfweliadau gyda gweithredwyr lefel Rhaglen drwy fynd ati i drafod rôl dysgu ac ymchwil yn y broses datblygu polisïau, ac yna'r prif amodau galluogi ar gyfer dysgu a throsglwyddo'n llwyddiannus – dysgu gwerthfawr sydd werth ei drosglwyddo, grŵp o weithredwyr i'w gyfleu, a llwybrau er mwyn ei drosglwyddo.

3.6 Roedd y canfyddiadau ar lefel Rhaglen yn gryf ac yn gyson:

- Roedd yr holl weithredwyr lefel Rhaglen o'r farn bod y GIE wedi cynhyrchu dysgu sylweddol. Roedd y meysydd wnaethon nhw eu nodi'n amrywio.

- Roedd meysydd dysgu pwysig wedi'u nodi gan y gweithredwyr lefel Rhaglen ynghylch agweddau o Reoli Rhaglen, gan gynnwys:
  - Y broses gydweithio rhwng y pedwar partner cenedlaethol
  - Rôl dulliau damcaniaeth newid i lunio a chanolbwyntio strwythur a chyflwyniad y rhaglen
  - Pwysigrwydd cynllunio cylch bywyd cyflawn y rhaglen, ac yn enwedig y cyfnod dirwyn i ben
  - Pwysigrwydd parhad llywodraethu'r Rhaglen hyd at gloi'r Rhaglen
  - Rôl y Swyddog Achos, a sut i fanteisio i'r eithaf arni
  - Rheoli ac arwain y Rhaglen, a phwysigrwydd penodi Rheolwr / Cyfarwyddwr Prosiect/Rhaglen ar y cyd â'r Uwch Swyddog Cyfrifol
  - Materion ynghylch rôl rhaglenni arbrofol a'u cysylltiad â chyfryngau polisi a llywodraethu eraill
  - Materion casglu data a gofynion
  - Y berthynas rhwng y Rhaglen a Phrosiectau, a'r ffordd orau o gyflawni cynaliadwyedd a dysgu gwerth chweil.
- Bu iddyn nhw hefyd nodi dysgu o'r Prosiectau, gan gynnwys:
  - Ffyrdd y gallai asedau cymunedol helpu cyflawni presgripsiynu cymdeithasol
  - Amrywiaeth o fodelau cyflawni
  - Ffyrdd o gysylltu gyda grwpiau targed sy'n anodd eu cyrraedd
  - Gwell ddealltwriaeth o heriau casglu data, yn enwedig ceisio gwybodaeth gan unigolion bregus neu mewn gweithgareddau untro
  - Cydnerthedd ymyraethau cymunedol er gwaethaf heriau COVID-19
  - Roedd sefydliadau cydnerth ac a oedd wedi hen ennill eu plwyf yn fwy tebygol o gefnogi cynaliadwyedd. I'r gwrthwyneb, arweiniodd newidiadau rheolaidd o ran staff / hyrwyddwyr at ostyngiad o ran momentwm a rhannu gwybodaeth
  - Canfuwyd bod partneriaethau wedi'u strwythuro o amgylch amcanion cyffredin yn fwyaf effeithiol o ran cynaliadwyedd
  - Rhai o anawsterau cydweithio ar lefel leol o ran 'ymuno' ar draws ffiniau i gefnogi grwpiau targed cyffredin

- Gwerth swyddog data wedi'i hyfforddi'n ganolog a wnaeth rannu dulliau a chymorth i'r rheiny ar lawr gwlad, gan alluogi prosesau casglu data credadwy a chynaliadwy ac ychwanegu sicrwydd at 'brynu i mewn' ymhlith partneriaid allweddol
- Mae angen i raglenni o dan arweiniad gwirfoddolwyr sy'n ymdrin â buddiolwyr gydag anghenion cymhleth gynnig cyfuniad o gymorth gydag a heb dâl i sicrhau diogelu a gallu
- Sut i gyfuno natur a thechnoleg yn effeithiol i gyrraedd a chyflwyno i grwpiau targed
- Meithrin partneriaethau newydd a gwahanol, a sut i'w gwneud nhw'n effeithiol.

3.7 Cafodd dau o'r tri phrif amod ar gyfer dysgu a throsglwyddo polisi llwyddiannus eu bodloni. Roedd dysgu gwerth ei rannu o Brosiectau a chnewyllyn o weithredwyr lefel Rhaglen oedd yn parhau a oedd yn fodlon, ac mewn rhai achosion, yn awyddus i gyfleu'r dysgu hwnnw. Roedd, fodd bynnag, absenoldeb amlwg o'r trydydd amod, sef llwybrau effeithiol y gellid trosglwyddo a gweithredu dysgu drwyddyn nhw.

**Dysgu y gellir manteisio arno**

3.8 Y dystiolaeth amlwg o'r cyfweliadau ar lefelau Prosiect a Rhaglen yw bod dysgu i'w gaffael, a'i fod wedi amrywio ledled nifer o wahanol feysydd.

- Bu i'r Prosiectau gynhyrchu dysgu sylweddol yn gysylltiedig â'u gweithgareddau a rhaglenni unigol ac yn enwedig ynghylch pynciau megis ymgysylltu cymunedol a'r tro tuag at adnoddau digidol yng ngwyneb y pandemig COVID-19 a'i effaith ar eu gweithgareddau
- Pwysigrwydd canolbwyntio ar ddeilliannau, waeth beth fo'r amrywiadau o ran modelau cyflawni, a oedd yn caniatáu hyblygrwydd i addasu i amgylchiadau megis COVID-19
- Bu i'r Prosiectau hefyd arddangos cydnerthedd a chynaliadwyedd sylweddol ledled yr ystod o gategorïau cynaliadwyedd megis gadael gwaddol o ddeunydd dysgu, gallu sefydliadol a gweithlu gwell, a gweithgarwch

parhaus a gweddilliol gwirfoddolwyr a buddiolwyr.  Roedd hyn ynddo'i hun yn wers sylweddol y gellid manteisio arni.

- Roedd rhywfaint o'r dysgu polisi a'r enghreifftiau ymarferol o'r Prosiectau yn berthnasol i bolisïau cenedlaethol, ac yn enwedig mewn perthynas â phresgripsiynu cymdeithasol a nodi a rôl asedau cymunedol yn cynnig mannau presgripiynwyr i'r rheiny mewn angen
- Roedd dysgu sylweddol ynghlwm â phroses y Rhaglen o ran yr hynny oedd yn effeithiol a'r hynny nad oedd yn effeithiol
- Roedd yna hefyd dysgu ehangach ynghylch y berthynas eang ac sy'n datblygu rhwng gweithgarwch corfforol a deilliannau iechyd cyhoeddus a llesiant gwell.

**Grŵp o weithredwyr i gyfleu'r dysgu**

3.9 Er bod y GIE ar waith am oddeutu pedair blynedd yn y pendraw, roedd rhywfaint o barhad ymhlith y gweithredwyr allweddol, gyda phob un yn ystyried bod gwersi i'w dysgu o'r Rhaglen, er eu bod yn pwysleisio ar wahanol agweddau. Roedd parhad ymhlith pob un o'r pedwar partner cenedlaethol ac roedd hyn yn cynnwys uwch weithredwyr a'r rheiny ar lefel mwy gweithredol. Roedd hyn yn anarferol ac o bosibl yn ddefnyddiol iawn o safbwynt caffael a chyfleu'r dysgu.

3.10 Ar ben hynny, arhosodd y gweithredwyr hynny mewn cysylltiad gyda'i gilydd i raddau helaeth ac roedden nhw'n rhannu safbwynt cadarnhaol o'r Rhaglen ac yn enwedig y gwaith roedden nhw wedi'i gyflawni gyda'i gilydd yn y camau cynnar.  Cafodd hyn ei adlewyrchu'n amlwg pan fu i ran o'r grŵp o weithredwyr ailymgynnull i gyflwyno agweddau o'r Rhaglen am wobrau gan Lywodraeth Cymru am arfer gorau ac arloesedd. Yn wir, fe gawson nhw eu rhoi ar y rhestr fer am un o'r rhain mewn proses a oedd yn hynod gystadleuol[7]. Nid oes fawr o amheuaeth bod yr ail ofyniad o ddysgu a throsglwyddo polisi llwyddiannus ar waith.

[7] Gallai gwobrau eu hunain fod yn ffordd ddefnyddiol o godi ymwybyddiaeth o ddysgu a gallai mwy fod wedi cael ei gyflawni mewn perthynas â'r GIE. Gallai'r cais hwn am Wobr ennyn mwy o ddiddordeb yn y dysgu yn sgil y GIE. Fe wnaeth y tîm hefyd gyflwyno cais ar gyfer y Wobr Gwasanaeth Sifil y DU ac er nad ydyn nhw ar y rhestr fer gofynnwyd iddynt am gyflwyno'u profiadau yn y digwyddiad Gwasanaeth Sifil Byw yng Nghaerdydd ym mis Mehefin 2025.

**Beth gafodd ei drosglwyddo, a thrwy ba Lwybrau?**

3.11 Yn gyffredinol, roedd y cyfanswm o ddysgu a gafodd ei drosglwyddo mewn gwirionedd yn Llywodraeth Cymru ac ymhlith y partneriaid cenedlaethol eraill yn gyfyngedig dros ben o gymharu â maint a gwerth yr hyn oedd wedi'i gynhyrchu ac roedd tystiolaeth ohono. Cafodd rhai agweddau o'r Rhaglen ei drosglwyddo drwy lywio datblygiad y Fframwaith Presgripsiynu Cymdeithasol Cenedlaethol. Gwnaed hyn drwy ddarparu enghreifftiau llwyddiannus ac ymarferol o sut oedd modd cysylltu ac ymgysylltu'n llwyddiannus gyda'r rheiny a oedd yn awyddus i hybu eu hiechyd a'u lles meddyliol a chorfforol drwy fyw bywydau iach ac egnïol. Ymhlith y rheiny oedd yn arwain y gwaith i ddatblygu'r Fframwaith roedd rhai gweithredwyr o'r Prosiectau CIE i helpu llywio, er enghraifft, yr ymagwedd o ran rôl asedau cymunedol. Roedd y trosglwyddiad hwn yn sgil dwy brif agwedd. Yn gyntaf, roedd nifer o Brosiectau'r GIE yn neu'n agos at y man presgripsiynu cymdeithasol. Yn ail, roedd y gweithredwyr oedd yn arwain y gwaith eisoes wedi bod yn weithredwyr allweddol yn y GIE ei hun. Fe wnaethon nhw ddefnyddio eu profiadau a'u dysgu eu hunain drwy'r GIE i lywio'r polisi ehangach. Roedd hyn yn gyfraniad pwysig. Er bod presgripsiynu cymdeithasol eisoes yn rhan gadarn o agenda Llywodraeth Cymru, roedd profiad y Prosiectau perthnasol yn cyd-fynd yn agos gyda'r dull eang ar waith, gan gynnig enghreifftiau darluniadol ymarferol sylweddol.

3.12 Cafodd canfyddiadau Gwerthusiad y Rhaglen eu cyflwyno i'r sefydliadau partner cenedlaethol. Cafodd y canfyddiadau eu trafod a'u defnyddio gan weithredwyr y Rhaglen. Cafodd adroddiadau gwerthuso'r Rhaglen eu cyhoeddi a'u rhannu gydag eraill drwy sianelau Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth. Mae gan Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth ddulliau dysgu mewnol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn awgrymu, y tu hwnt i sicrhau bod yr adroddiadau ar gael, bu rhannu canfyddiadau gyda meysydd polisi ehangach yn gyfyngedig dros ben a ni fu'n ddigon cryf i warantu trosglwyddo dysgu i'r rheng flaen polisi ehangach. Does dim tystiolaeth ohonynt yn cael eu cyfathrebu'n weithredol y tu hwnt i'w bod nhw ar gael yn gyffredinol. Mae angen datblygu ffyrdd mwy systematig a ffurfiau priodol i rannu pwyntiau dysgu allweddol i feysydd polisi ehangach.

3.13 Comisiynwyd adroddiad penodol gan Fwrdd y Prosiect a oedd yn crybwyll y gwersi a'r dysgu cynnar, a chafodd ei rannu gyda'r Bwrdd Prosiect i fyfyrio a'i drafod. Does dim tystiolaeth ei fod wedi'i rannu y tu hwnt i hynny.

3.14 Parhaodd yr agweddau cydweithredol ar ddatblygu a gweithredu'r GIE, a rhai o'i phrosesau mwy manwl fel dysgu allweddol yng nghof y cnewyllyn o uwch weithredwyr allweddol. Oddeutu pum mlynedd yn ddiweddarach, roedd yr uwch weithredwyr yn dal i'w ddisgrifio'n 'unigryw'. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth bod unigrywiaeth y cydweithrediad CIE wedi cyrraedd unrhyw gyrhaeddiad sylweddol y tu hwnt i hynny, er y gallai Gwobrau Llywodraeth Cymru sydd wedi'u crybwyll uchod gynnig cyllid o'r newydd iddo.

3.15 Bu cyfle'r GIE i weithredwyr allweddol gydweithio ledled meysydd iechyd a chwaraeon gyfrannu at ddatblygiad cyffredinol y berthynas honno, sy'n parhau i fod yn ganolbwynt ymhlith y gweithredwyr perthnasol. Yma eto, bu i'r gweithredwyr perthnasol fanteisio ar y profiad, gan barhau i chwarae rolau tebyg yn eu sefydliadau rhai blynyddoedd yn ddiweddarach.

3.16 Yn gyffredinol, yn ein hasesiad roedd trosglwyddo dysgu'n gyfyngedig, a hynny'n bennaf am ddau reswm:

- Prin oedd y llwybrau gweithredol lle gallai'r dysgu gael ei gyfeirio a'i helaethu. Cafodd y rheiny oedd ar gael ond eu defnyddio i raddau cyfyngedig, yn bennaf oherwydd diffyg adnoddau pendant i gyflawni hynny a diffyg cynllun i roi hynny ar waith.
- Nid 'swydd dydd i ddydd' unrhyw un oedd sicrhau dysgu, ac mae'r rheiny a a allai fod yn gwneud hynny yn rheoli nifer o flaenoriaethau eraill a newidiol. O ganlyniad, doedd dim staff neu adnoddau ariannol penodol i gyflawni'r dasg hon.

3.17 Pe byddai modd crynhoi'r sefyllfa mewn dau ymadrodd, mae'n debyg mai dyma'r ymadroddion 'bod yr 'ased' CIE wedi'i rhannu ond heb ei 'defnyddio i'r eithaf' ac roedd yn 'oddefol' yn hytrach na 'gweithredol'. Roedd y dysgu ar gael drwy'r amryw Adroddiadau, ac roedd y rhain o bosibl ar gael i'r gweithredwyr hynny oedd â diddordeb. Er hynny, ni chafodd ei hysbysu ymhlith eraill i unrhyw raddau sylweddol

neu ei hystyried ar gyfer dysgu sefydliadol o fewn Llywodraeth Cymru neu'r partneriaid cenedlaethol eraill neu'n allanol. Mae'n ymddangos cafodd y llwybrau a oedd ar gael o bosibl ond eu defnyddio rhywfaint neu ddim o gwbl[8]. Roedd y dysgu ar gael ond ni chafwyd llawer o ystyriaeth / ni fu unrhyw ystyriaeth o ran sut gellir ei 'ddefnyddio'[9].

3.18 I raddau, mewn perthynas â'r GIE, roedd COVID-19 yn agwedd lliniarol, oherwydd ei fod yn cyfyngu ar yr amser a'r 'ystod' ar gyfer dysgu. Serch hynny, roedd yr agweddau strwythurol yn llawer mwy perthnasol ar y cyfan. Er bod y rhai a gyfwelwyd yn cyfeirio at bwysigrwydd dysgu, roeddent yn dangos dealltwriaeth gyfyngedig o ran sut i roi'r dysgu hwnnw ar waith.

3.19 Roedd y diffyg corddi yn y grŵp o arweinwyr Rhaglen y GIE yn eithriadol, ac yn sail addawol dros ben ar gyfer twf. Er gwaethaf yr amgylchiadau ffodus hyn, roedd yn anodd cadw ac ymgorffori cof sefydliadol heblaw mewn perthynas â phresgripisiynu cymdeithasol. Mae'n ddefnyddiol cofio y cafodd adnoddau penodol eu neilltuo ar gyfer gwerthuso'r Rhaglen a'r Prosiectau, ac ar gyfer ymchwil gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar broses Werthuso'r Prosiectau. Doedd dim cyllideb benodol neu raglen waith i gadw a throsglwyddo'r dysgu ar lefel Rhaglen neu Brosiect, er bod disgwyl i'r Prosiectau fynd ar drywydd cynaliadwyedd ac roeddent yn gallu manteisio ar eu cyllid grant gan y GIE wrth wneud hynny.

3.20 Mae dysgu yn gofyn am y gallu i addasu dysgu i ddangos sut mae'n berthnasol yn y cyd-destun cyfredol. Mae angen ei drosi i'r cyd-destun fel bod modd i wneuthurwyr polisi weld sut mae'r gwersi o'r GIE yn berthnasol i'w diddordebau a'u blaenoriaethau cyfredol. I gyflawni hyn, mae angen pobl gyda'r sgiliau, yr amser, y tueddiad a'r cylch gwaith i ystyried sut gellir rhoi dysgu o ymyraethau yn y gorffennol ar waith 'nawr'. Nid yw'n ddigon sicrhau bod gwersi ar gael. Y cwestiwn yw 'beth mae hynny'n ei olygu inni, nawr?'. Mae hynny'n cymryd amser ac ymdrech

[8] Cafodd y Ganolfan Ragoriaeth Grantiau ei chrybwyll mewn cyfweliadau yn y cyd-destun hwn, ac o'n gwybodaeth bersonol ni roedd y rhwydweithiau Proffesiwn Polisi yn Llwybr dichonol arall. Gwnaethom geisio trefnu cyfweliadau gyda'r ddau i egluro a chadarnhau ein hasesiad cychwynnol, ond ni chynhaliwyd yr un ohonynt.
[9] Gellir gwneud pwynt tebyg mewn perthynas ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru. Fodd bynnag, roedd y GIE o dan arweiniad Llywodraeth Cymru, ac roedd yn ysgwyddo'r mwyaf o gyfrifoldeb am fanteisio i'r eithaf ar yr asedau dysgu o'r GIE.

ddeallusol. Nid yw'n nodwedd 'arferol' o lunio polisi ar hyn o bryd, gan gynnwys ond nid yw'n gyfyngedig i'r GIE o bell ffordd. Nid yw cyfyngiadau amser ac adnoddau, a phwysau uniongyrchol i 'gyflawni' yn ffafriol iddo.

## 4. Manteisio i’r eithaf ar yr ased a chyflawni gwerth

4.1 Fel y gwelir yn Adrannau 2 a 3, roedd cynnydd sylweddol gyda chynaliadwyedd ar ran y Prosiectau, ynghyd â throsglwyddo dysgu pwysig dros ben ar lefel cenedlaethol o ran presgripsiynu cymdeithasol.

4.2 Gan fyfyrio ynghylch hynny ac ein canfyddiadau ehangach, mae’n amlwg erbyn yr amser yr oedd dysgu polisïau a chynaliadwyedd ar gael o’r GIE, nid oedd yn hen ffasiwn nac y tu hwnt i’w ddyddiad gwerthu neu ddefnyddio. Mae’r heriau polisi sylfaenol a ysgogodd y GIE yn dal yr un fath, ynghyd â’r gwersi rheoli rhaglen ohoni. Yng Nghymru, bu blaenoriaethau Gweinidogol tymor canolig yn gyson dros amser hefyd, yn gysylltiedig â chael llywodraethau o dan arweiniad Llafur bob amser. Bu pwyslais cyson ar anghenion grwpiau difreintiedig a chymunedau wedi’u hymylu. Mae anweithgarwch corfforol a chanlyniadau meddyliol a chorfforol hyn, ynghyd â chostau hyn i’r GIG, i gyd yn broblemau byw a byddant yn parhau. Felly sut gellir manteisio i’r eithaf ar gynaliadwyedd Prosiectau, a sut y gallai’r dysgu o lefelau Prosiect a Rhaglen gael eu defnyddio i sicrhau’r effaith fwyaf?

**Cynaliadwyedd a’r prosiectau**

4.3 Roedd sawl ffordd y gallai cynaliadwyedd ar lefel Prosiect fod wedi cael ei gryfhau:

- Roedd y ddealltwriaeth gychwynnol o ‘gynaliadwyedd’ posibl yn y GIE yn gyfyngedig, er hynny roedd yn rhaid i Brosiectau ddynodi eu hymagwedd tuag at gynaliadwyedd yn ystod y cam ymgeisio
- Bu i gynaliadwyedd ffurfio rhan o ganolbwynt y Rhaglen. Cafodd ei ddewis fel pwnc ar gyfer sylw arbennig ym Mlynyddoedd 2 a 3 o werthusiad lefel rhaglen y GIE, a chyfeiriwyd ato yn y Canllawiau ar Ddirwyn Prosiectau i Ben. Fodd bynnag, mae tystiolaeth o’r cyfweliadau ar lefel Prosiect a Rhaglen yn dangos na wnaeth hyn arwain at unrhyw weithredu sylweddol o ran cynaliadwyedd. Ni wnaeth y Swyddogion Achos ei drin fel ystyriaeth sylweddol, er enghraifft
- Cafodd cyfleoedd i archwilio a mynd i’r afael â phosibiliadau cynaliadwyedd eu colli. Un a fyddai, wrth edrych yn ôl, wedi bod yn werth chweil o bosibl fyddai gofyn i Brosiectau, ar ôl derbyn y buddsoddiad cychwynnol gan y GIE i

gynnal a chyflawni gweithgareddau, a byddai modd cynnal y gweithgareddau hynny ar lefel llawer is o adnoddau parhaus. Roedd hwn yn gwestiwn annatod a fyddai wedi llywio asesiad gwerth am arian sylweddol, yn enwedig yng nghyd-destun y fframwaith presgripsiynu cymdeithasol.

- Ni roddodd y Rhaglen ddigon o sylw i ddirwyn cylch bywyd y Rhaglen i ben, ac ar yr adeg honno dylai ystyriaethau cynaliadwyedd fod wedi bod yn flaenoriaeth uchel. Ni wnaeth trafod y materion hyn ar lefel Bwrdd y Prosiect arwain at weithredu ar lawr gwlad, yn rhannol o ganlyniad i adnoddau cyfyngedig, ac wrth gwrs anaml iawn wnaeth y Bwrdd Prosiect gwrdd o 2022 ymlaen.
- Gellid bod wedi cryfhau gwerth posibl cynaliadwyedd Prosiectau, ac yn enwedig wrth gaffael a chyfathrebu dysgu lefel Prosiect, trwy ymdrech fwy systematig ar lefel Rhaglen.

**Trosglwyddo dysgu o'r rhaglen:**

4.4 Yn yr un modd, roedd nifer o ffyrdd y gallai trosglwyddo dysgu fod wedi'i gryfhau:

- Byddai cynllun o gylch bywyd cyflawn y Rhaglen – datblygu, gweithredu, cynnal a dirwyn i ben – wedi cynnig mwy o bwyslais ar gynaliadwyedd. Aeth mwyafrif helaeth yr ymdrech at ddatblygu a gweithredu'r GIE, a llawer llai ar gynnal a chadw a llai fyth ar ddirwyn Prosiectau i ben. Roedd hyn yn nodwedd COVID-19 yn rhannol, a'r galwadau eithriadol ar nifer o weithredwyr allweddol lefel Rhaglen y GIE. Roedd hefyd yn wendid cychwynnol, ac un na chafodd ei unioni yn ystod cyfnod gweithredu'r Rhaglen.
- Doedd dim adnodd penodol wedi'i neilltuo ar gyfer dysgu a throsglwyddo polisi, a doedd gan unrhyw un y rôl neu'r cyfrifoldeb i fanteisio i'r eithaf ar werth allbynnau o'r GIE. Bu i rannau cynnar Gwerthusiad y Rhaglen amlygu dymunoldeb rôl Rheolwr neu Gyfarwyddwr Prosiect i gynnig canolbwynt ar gyfer arweinyddiaeth a chydweithredu yn dra gwahanol i'r cyfrifoldebau oedd wedi'u dyrannu i'r Uwch Swyddog Cyfrifol penodedig. Gallai Rheolwr Prosiect o'r fath fod wedi cael y cyfrifoldeb nid yn unig i sicrhau bod dysgu'n cael ei gywain, ond hefyd ei gyfathrebu a'i gynllunio ar hyd unrhyw Lwybr priodol.

- Hyd yn oed heb rôl Rheolwr Prosiect o’r fath, gallai fod adnodd pwrpasol o berson rhan amser am gyfnod tuag at y diwedd ac ar ôl i gyllid y Rhaglen ddod i ben. Fe wnaeth y gweithredwyr allweddol fuddsoddi’n briodol mewn gwerthuso ar lefel Rhaglen a Phrosiect, a hyd yn oed mewn gwerthusiad o sut roedd y Prosiectau wedi profi gwerthusiad wedi’i gomisiynu eu hunain, sef y dull a roddwyd ar waith yn y GIE. Er bod buddsoddiad wedi’i neilltuo’n benodol i werthuso, ychydig iawn o fuddsoddiad oedd i gyflawni naill ai cynaliadwyedd neu ddysgu a throsglwyddo polisi.
- Dydy’r Llwybrau ar gyfer dysgu a throsglwyddo polisi yn Llywodraeth Cymru o Raglenni megis y GIE ddim yn gadarn nac wedi’u datblygu’n briodol, neu o leiaf dydyn nhw heb eu hystyried felly gan ystod o weithredwyr profiadol ac uwch o ledled y Llywodraeth. Mae unrhyw amcan ac asesiad manwl o hyn ymhell y tu hwnt i gwmpas yr Adroddiad hwn, ond mae’r dystiolaeth yn gyson ac yn eglur. Hefyd nid oedd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru na Chwaraeon Cymru Lwybrau cadarn ar gyfer dysgu a throsglwyddo polisïau. O ystyried bod y GIE wedi ffurfio rhan o’r Rhaglen ar gyfer Llywodraeth, a chyfrifoldeb cyffredinol Llywodraeth Cymru dros bolisi cyhoeddus yng Nghymru, eu Llwybrau arfaethedig nhw sy’n hollbwysig yma.
- Mae pwysau cymharol naratifau gwleidyddol a chyfryngau o ran llywio deialog polisi yn tanlinellu’r angen i fod yn well am ddefnyddio ymchwil, gwerthuso, a dysgu i lywio’r deialog polisi a’r naratifau gwleidyddol / cyfryngau.  Mae hynny’n galw am ddull o ddefnyddio gwybodaeth a thystiolaeth sydd o bosibl yn mynd y tu hwnt i strategaeth graidd o gyhoeddi adroddiadau ymchwil a gwahodd eraill i dalu sylw. Mae angen adroddiadau gyda mathau eraill o allbynnau a phrosesau rhannu, a gyda chyswllt uniongyrchol gyda gwneuthurwyr polisi ehangach.
- Cynigiodd un o’r gweithredwyr lefel Rhaglen awgrym difyr dros ben i ymgorffori’r GIE yn y labordy dysgu, gyda’r posibilrwydd o lunio adnoddau dysgu o’r GIE a rhaglenni eraill a ellir eu defnyddio mewn amrywiaeth o hyfforddiant mewnol. Gallai hyn hyd yn oed llywio partneriaeth gyda phrifysgolion i lunio deunyddiau dysgu yn seiliedig ar y gwaith hwn a’r gwersi sydd wedi’u dysgu.

**Argymhellion**

4.5 Dyma ein hargymhellion:

- Dylai rhaglenni megis y GIE sydd â'r diben o ddysgu ac arbrofi drwy ariannu Prosiectau lluosog yn y tymor byr i ganolig:
  - Ddatblygu dull eglur a thrylwyr o ran cynaliadwyedd yn gysylltiedig â lefelau Rhaglen a Phrosiect yn ddelfrydol fel rhan o Gynllun MEALS (Monitro, Gwerthuso, Atebolrwydd, Dysgu a Chynaliadwyedd) hollgynhwysol
  - Meithrin ystyriaethau cynaliadwyedd ynghlwm â'u Cynllun Prosiect cyffredinol, gan gynnwys sut caiff cynaliadwyedd ei fonitro a'i hybu i'r eithaf yn ystod pob cam o gylch bywyd y Rhaglen, ac yn dilyn dirwyn y Rhaglen i ben os yn briodol.
  - Nodi adnodd technegol a staff penodol a phriodol gyda chyfrifoldeb dros gywain a manteisio i'r eithaf ar gynaliadwyedd ym mhob agwedd
  - Nodi o'r cychwyn cyntaf y categorïau cynaliadwyedd posibl ar lefelau Rhaglen a Phrosiect, a theilwra monitro a chymorth i fanteisio i'r eithaf ar y categorïau hynny
  - Cynnig ystyriaethau penodol ynghylch sut gellir parhau gyda phrosiectau prawf ac arbrofol yn dilyn y rhaglen gyda chyllid llawer is a/neu gymorth wedi'i deilwra i adlewyrchu gweithgareddau parhaus a sefydledig yn hytrach na gweithgareddau arbrofol sydd angen llawer mwy o fuddsoddiad ymlaen llaw.
- Yn fwy cyffredinol:
  - Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid CIE roi llwybrau mwy effeithiol ar waith y gellir trosglwyddo, ymhelaethu, cadw, rhannu a gweithredu dysgu drwyddyn nhw
  - Dylai Llywodraeth Cymru a'i phartneriaid CIE adolygu a ydyn nhw'n manteisio i'r eithaf ar werth y rhaglenni gyda deilliannau dysgu cadarn fel rhan o ystyriaeth ehangach o'u trefniadau ar gyfer meithrin a rhannu cof sefydliadol

- Mae'r diffyg ymddangosiadol o brosesau dysgu polisi mewnol, a gorddibyniaeth ar unigolion i 'gludo' cof sefydliadol, yn rhywbeth y dylai galwedigaeth polisi Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef efallai. Mae angen i Lywodraeth Cymru feddwl sut i gadw cof cyfundrefnol a sefydliadol drwy ymrwymo adnoddau penodol i ddiogelu gwaddol rhaglenni megis y GIE, a chynnig y rôl o sicrhau hyn i staff penodol a'u dwyn yn atebol am gyflawni hynny. Dylai fod pob prosiect arbrofol / prawf fel y GIE yn meddu ar 'gynllun gwaddol' wedi'i ategu gan ddamcaniaeth newid o'r cychwyn cyntaf.
- Dylai gweithredwyr allweddol ym mhob un o'r partneriaid cenedlaethol roi rhagor o ystyriaeth i sut gallan nhw hybu ymwybyddiaeth o a chwant ar gyfer y dysgu o'r GIE (a pholisïau/rhaglenni eraill). Gellir ychwanegu dysgu a rhannu dysgu'n weithredol at ddisgrifiadau swydd neu dasgau'r gweision cyhoeddus perthnasol, ynghyd â'r amodau a thelerau ar gyfer derbynwyr grantiau[10].

**Gwanwyn 2025**

[10] Mae'n amlwg o'r deunyddiau ein bod ni wedi gweld hyn yn digwydd i raddau ar gyfer derbynwyr grantiau. Ymddengys mai'r llwybrau yn Llywodraeth Cymru ar gyfer defnyddio'r dysgu hwnnw yw'r prif feysydd ar gyfer datblygu.

## Cyfeirnodau


UKRCS (2021a). Partners in Progress: The Healthy and Active Fund and its Theory of Change. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 21/2021.

UKRCS. (2021b). Making Change Happen. The Healthy and Active Fund: A Process Evaluation. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 22/2021.

UKRCS. (2024). Evaluation of the Healthy and Active Fund: final report. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 32/2024.

Riggs, K., 2012. Strategies for sustainability of Grant-funded programs. Ar gael yma: Strategies for Sustainability of Grant-funded Programs

fundsforNGOs. Ar gael yma: How to ensure sustainability? - fundsforNGOs


.

## Atodiad – Teithiau cynaliadwyedd prosiectau

Mae Atodiad 1 adroddiad terfynol gwerthuso'r rhaglen CIE yn cynnwys crynodebau o'r 16 Prosiect. Cafodd y crynodebau eu paratoi gan dîm RCS, yn unol â thempled safonol, gydag adrannau ar amcanion a chyflawniadau'r Prosiectau; cyflwyniad ac effaith gwirioneddol; agweddau arloesol a'r gwersi sydd wedi'u dysgu; a bwriad cynaliadwyedd.

Mae'r adroddiad hwn yn darparu adran derfynol ychwanegol ar '**Cynaliadwyedd yn 2024'**[11] i ategu crynodeb pob Prosiect. Yn yr adran mae cyfrif llawnach o'u taith cynaliadwyedd, gan gynnwys y daith ar ôl i gyllid y GIE ddod i ben. Mae'r crynodebau hyn wedi'u rhestru yn ôl enw'r Prosiect yn nhrefn y wyddor fel sydd wedi'i osod yn y Tabl isod.

Mae'r crynodebau 'Cynaliadwyedd yn 2024' wedi cael eu llunio o'r un deunydd a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn gyffredinol (gwelwch 'Ein hymagwedd ac ein dulliau', 1.6–1.10). Yn yr un modd ag adrannau eraill crynodebau'r Prosiectau, mae'r cynnwys yn cyd-fynd â'r mewnwelediad a ddatblygwyd gan dîm RCS yn ystod sawl cyfarfod â staff y Prosiectau a nifer o adolygiadau dogfen o ddeunyddiau'r Prosiectau drwy gydol y gwerthusiad. Fodd bynnag, nid oeddem yn cyflawni'r rôl o oruchwylio neu sicrhau ansawdd gwerthusiadau Prosiectau, felly nid yw'r cyfeirnodau data unigol sydd wedi'u cyflwyno wedi'u gwirio'n annibynnol, felly dyna yw statws y dyfarniadau ansoddol yn unig.

### Prosiectau'r GIE

Enw'r Prosiect, lleoliad, disgrifiad a chorff arweiniol

**Coed Actif Cymru** (Cenedlaethol): Presgripsiynu cymdeithasol gan ddefnyddio'r Goedwig. Gweithgareddau a hyfforddiant yn y goedwig ar gyfer gwirfoddolwyr, grwpiau, a phartneriaid: Coed Lleol – Smallwoods

**Babi Actif** (Gogledd-orllewin Cymru) Cymorth i rieni i gadw'n heini yn yr awyr agored gyda'u babanod yn ystod y cyfnod o feichiogi hyd at 2 oed: Eryri-Bywiol Cyf

**Balanced Lives for Care Homes** (De-orllewin Cymru): Hybu iechyd a lles drwy weithgarwch corfforol a chymdeithasol mewn cartrefi gofal: Ymddiriedolaeth Action for Elders

**BeActive RCT** (Rhondda Cynon Taf): Ymwneud â phobl a chymunedau i hybu lles - Rhaglen amlasiantaeth o weithgareddau chwaraeon a chorfforol hygyrch, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, mewn chwe chymuned ag anghydraddoldebau iechyd difrifol: Interlink RCT

**Cyfeillion Cerdded Cymru** (De/De-ddwyrain Cymru): Gweithgarwch grŵp cerdded bach dwys i bobl hŷn: Living Streets

**Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd** (De/De-ddwyrain Cymru a'r Cymoedd): Gweithgareddau cymunedol / partneriaid ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd incwm isel: StreetGames UK Ltd

[11] Enw'r Prosiect gan y sefydliad cynnal / nawdd; yr union grant a dderbyniwyd (wedi'i dalgrynnu i'r £000 agosaf; ac mae'r paragraff agoriadol yn datgan diben a lleoliad daearyddol y Prosiect o'r adroddiad terfynol wedi'u hail-adrodd yn yr adroddiad hwn i allu cyfeirio atynt yn rhwydd.

**Pum Ffordd at Les**[12] (Fflint/Wrecsam): Gweithgarwch Corfforol i Hybu Lles Meddyliol. Gwasanaeth CAMHS i ddarparu gweithgareddau i bobl ifanc sydd â neu sydd mewn perygl o wynebu anawsterau iechyd meddwl (gwasanaeth cymunedol): Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

**Tyfu Gyda'n Gilydd** (De/De-ddwyrain Cymru): Gweithgareddau pontio'r cenedlaethau sy'n tyfu bwyd: Cadwch Gymru'n Daclus

**HAPPy** (Casnewydd): Gweithgareddau Tŷ Tredegar ar gyfer yr ifanc a'r rhai mewn tlodi neu anfantais: Ymddiriedolaeth Genedlaethol Tŷ Tredegar

**Healthy & Active Newport** (Casnewydd): Cynghrair o gyrff statudol a chyrff eraill yng Nghasnewydd i ymgysylltu mewn ysgolion a chymunedau: Casnewydd Fyw

**Crff Iach - Meddwl Iach** (Caerdydd): Gweithgareddau ffitrwydd corfforol a theuluol i ferched Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig a'u teuluoedd: Women Connect First

**Agor Drysau i'r Awyr Agored** (Gogledd-orllewin Cymru): Gweithgareddau corfforol cerdded/dringo mewn grŵp i'r gymuned yn yr awyr agored i fynd i'r afael â phroblemau iechyd meddwl: Y Bartneriaeth Awyr Agored

**Llysgenhadon Chwarae** (Caerdydd a'r Fro): Cynyddu chwarae mewn 10 cymuned gan 60 o Lysgenhadon Chwarae wedi'u recriwtio a'u hyfforddi: Chwarae Cymru

**Sporting Memories** (De Cymru): Lles drwy atgofion a gweithgarwch chwaraeon: CBC Sporting Memories Network

**Super-Agers** (Partneriaeth Cwm Taf): gweithgarwch corfforol yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a'r rhai ag anableddau neu salwch hirdymor: Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

**Rhaglen Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru** (Cenedlaethol): Chwarae cymunedol a gweithgarwch corfforol dwys i bobl ifanc: Blynyddoedd Cynnar Cymru (a Gymnasteg Cymru)

**Dewch i Gerdded Gorllewin Cymru** (Gorllewin a Chanolbarth Cymru): Grwpiau Cerdded sy'n gysylltiedig â Meddygfeydd: Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

---


[12] Dyma'r Prosiect a ddaeth i ben cyn ei amser oherwydd cyfyngiadau COVID-19. Does dim crynodeb wedi'i gynnwys oherwydd ni chafodd ei gychwyn yn ymarferol.

**Coed Actif Cymru: Presgripsiynu Cymdeithasol gan Ddefnyddio'r Goedwig**
**Cyllid grant a dderbyniwyd £459,000**

Bu i'r Prosiect ymgysylltu gydag oedolion a phlant i gymryd rhan mewn sesiynau 'Actif Woods' lle'r oedden nhw'n cael blas ar ac yn dysgu sgiliau'r goedwig, gwybodaeth am yr amgylchedd naturiol, a bwyta'n iach, a bu iddyn nhw hefyd gymryd rhan mewn ymarfer corff yn y goedwig. Roedd y Prosiect yn genedlaethol, a'r rheiny oedd yn cymryd rhan yn bennaf oedd y rheiny o ardaloedd gydag anghenion iechyd uchel, cyfraddau cyflogaeth isel a mynediad cyfyngedig i wasanaethau.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Mae'r corff arweiniol, Coed Lleol – Smallwoods, yn disgrifio'i hun fel sefydliad sy'n ymwneud â materion cynaliadwyedd yn gyffredinol, gyda 'lefel o gyfatebiaeth' o ystyried ei ddibyniaeth ar natur a'i werth. Roedd felly yn drefn arferol naturiol i ddwyn i ystyriaeth cynaliadwyedd o gychwyn y Prosiect ac mae'n rhan o bob un o'u gwerthusiadau Prosiect.

Mae data Graddfa Llesiant Meddwl Warwick-Edinburgh (WEMWBS) wedi'i gasglu dros gyfnod o 5 mlynedd, y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i Raglen y GIE. Bellach mae Coed Lleol yn cefnogi sefydliadau eraill gyda monitro a gwerthuso iechyd yn yr awyr agored.




Ffynhonnell: Gwerthusiad Coed Lleol Smallwoods Cymru 2023

Dyma rai o'r gweithgareddau allweddol i gefnogi gwaddol y Prosiect:

- Gweithdai arfer gorau ar gael i arweinwyr a phartneriaid ac wedi'u cynnig yn allanol (i sicrhau incwm). Cyrsiau hyfforddiant achrededig ar-lein yn parhau
- Rhaglenni wedi'u hyrwyddo i feysydd gofal iechyd a chymdeithasol drwy Feddygfeydd, canolfannau iechyd ac ati.
- Profiadau trochi ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol – mwy o geisiadau a phartneriaeth gyda Cyfoeth Naturiol Cymru

- Mae cyfres o safonau gofynnol wedi'u datblygu ar waith gyda chymorth i'r holl arweinwyr eu cyflawni. Ymhlith y rhain mae cymorth cyntaf yn yr awyr agored, ymwybyddiaeth iechyd meddwl, gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), hyfforddiant perthnasol ar gyfer y gweithgareddau maen nhw'n eu cynnal, monitro a gwerthuso a rhoi'r pum ffordd at les ar waith
- Rhwydwaith genedlaethol o fannau coedwig gwell gyda gwell mynediad a seilwaith
- Tair canolfan goedwig a deg safle hygyrch wedi'u gwella'n sylweddol.

Llwyddodd y Prosiect i ennill cyllid amgen yn 2024 a wnaeth sicrhau bod modd i'r gweithgareddau barhau ac er bu newidiadau, ni fu lleihad yn y gwaith cyflawni.

Roedd y gwaith prif ffrydio yn Coed Lleol yn llwyddiannus wrth iddi ddod yn fan presgripsiynu cymdeithasol drwy fyrddau iechyd a'i chyfraniad at strategaethau iechyd meddwl. Gofynnwyd i'r Prosiect gyfrannu tuag at y fframwaith presgripsiynu cymdeithasol. Mae Coed Lleol yn disgrifio'i hun fel llwybr tuag at weithredu'r fframwaith presgripsiynu cymdeithasol a bu'n ymgysylltu'n uniongyrchol gyda gweinidogion Cymru i'r perwyl hwn.

Nid oedd y sefydliad wedi cyfuno natur a thechnoleg yn flaenorol. Bu i hyn gynyddu hygyrchedd ar y cyd â datblygu safleoedd coedwig ychwanegol. Cafodd y gwaddol dysgu ar-lein ei sbarduno gan hyblygrwydd cyllid y GIE i alluogi cyflawni ar-lein.

**Babi Actif**
**Cyllid grant a dderbyniwyd £232,000**

Roedd y Prosiect Babi Actif ar waith ledled Conwy, Gwynedd ac Ynys Môn, o dan arweiniad Eryri-Bywiol Cyf. Bu i'r Prosiect gefnogi rhieni a phlant i gadw'n heini yn yr awyr agored yn ystod 1000 diwrnod cyntaf y babanod.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Dangosodd adroddiad cynaliadwyedd Babi Actif, rhwng Ebrill 2023 a Mawrth 2024, bu i'r Prosiect gynnal 224 sesiwn gyda 750 o rieni unigol yn mynychu 2,000 gwaith ynghyd â 400 unigolion newydd sbon yn cofrestru i gymryd rhan. Parhaodd grwpiau rheolaidd i weithredu ar ddiwedd 2024. Mae unigolion oedd yn cymryd rhan drwy gydol y rhaglen wedi sefydlu eu grŵp WhatsApp eu hunain ac mae rhai grwpiau wedi dod o hyd i gyllid eu hunain.

Bu i'r rheiny oedd yn cymryd rhan hefyd barhau i gadw'n heini yn annibynnol i Babi Actif, drwy fynychu sesiynau ychwanegol â thâl gyda hyfforddwyr ac arweinwyr grwpiau maen nhw wedi cwrdd â nhw drwy'r Prosiect. At hyn, mae rhieni wedi dychwelyd i sesiynau Babi Actif ar ôl geni babis newydd, sy'n awgrymu newid ymddygiad hirdymor a chydnabyddiaeth i werth yr awyr agored a gweithgarwch corfforol. Mae adroddiad cynaliadwyedd y Prosiect yn dangos tystiolaeth o hyn: dangosodd arolygon sesiynau diweddar fod *"65% o ymatebwyr naill ai'n cytuno neu'n cytuno'n gryf eu bod nhw'n cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn fwy rheolaidd ers ymuno gyda sesiynau Babi Actif, ac mae 88% o ymatebwyr sydd ddim yn cymryd rhan yn y sesiynau mwyach yn dal mewn cyswllt gyda rhai eraill oedd yn cymryd rhan."*

Gyda'r model yn gofyn am lefel benodol o gyllid i gefnogi cynaliadwyedd, trwy gydol ail hanner y Rhaglen CIE, bu i'r Prosiect geisio am gyllid gan ffynonellau eraill ac maen nhw'n parhau i wneud hynny. Bu profiad y sefydliad yn llunio ceisiadau grant a'r defnydd o dystiolaeth o werthusiad Babi Actif a ddangosodd werth yr ymyriad arwain at lwyddiant ysgubol. Ym mis Rhagfyr 2024, dyfarnwyd £300mil i'r Prosiect o Wobr Gymunedol y Loteri Genedlaethol[13]. Bydd hyn yn fodd i sesiynau ddatblygu ledled y tair sir, Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy am y tair blynedd nesaf, gan gyrraedd mwy o gymunedau ynysig, a darparu hyd at 15 o weithgareddau'r wythnos a dyblu'r nifer o bobl sy'n gallu mwynhau buddion gweithgarwch awyr agored wedi'i gefnogi. Mae ffynonellau eraill o gyllid wedi'u dyfarnu drwy gydol y Prosiect, megis trwy Dechrau'n Deg yn Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam; cyllid fferm wynt i alluogi gwaith i barhau mewn ardaloedd arfordirol; a Phrosiect tirwedd yng Nghyngor Sir Conwy gyda sesiynau penodol yn canolbwyntio ar ddiwylliant, blodau a phlanhigion. Roedd oddeutu £1.3miliwn wedi'i gaffael hyd at ddiwedd 2024. Mae'r Prosiect yn parhau i chwilio am gyllid pellach ac mae'n cydweithio gyda phartneriaid i gynnal darpariaeth a chefnogi teuluoedd newydd.

Mae rhai agweddau o'r Prosiect wedi'u hymgorffori yng ngwaith y sefydliad. Mae cydlynydd y Prosiect yn parhau i fod mewn swydd llawn amser. Yn ystod y rhaglen, bu i'r sefydliad gynnal adolygiad risg hollgynhwysol ac adolygu strwythur safonau a chymwyseddau proffesiynol, sydd wedi paratoi cynllun ar gyfer cyflawni sesiynau yn yr awyr agored i rieni a babanod. Mae brand Babi Actif yn parhau ac mae wedi darparu'r sylfaen ar gyfer ymgeisio am gyllid yn y dyfodol. Mae datblygu'r adnodd 'Things to do before you're two' a gwefan o ymarferion cyn ac ar ôl geni a syniadau am weithgareddau yn cynnig adnodd gwaddol i annog rhieni i gadw'n heini yn yr awyr agored gyda'u babanod. Caiff y rheiny sy'n cymryd rhan hefyd eu cyfeirio at gyfleoedd eraill i gadw'n heini yn yr awyr agored, ac mae cynnwys ar y cyfryngau cymdeithasol yn cefnogi hyn.

Yn olaf, un elfen allweddol yw'r wybodaeth a'r profiad sydd wedi'i ennill gan y gweithlu, gan gynnwys partneriaid megis staff gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd a thimau cefnogi teuluoedd drwy gymryd rhan yn y cynllun Babi Actif. Mae'r dysgu a enillwyd (ac a gyhoeddwyd) trwy ymchwil a

[13] Babi Actif Project celebrates grant of £300k from The National Lottery Community Fund

gwerthusiad y Prosiect wedi helpu'r model Babi Actif i fod yn fwy crwn, wedi ei brofi mwy a bod mwy o dystiolaeth i helpu dylanwadu ar wasanaethau ehangach.

**Balanced Lives for Care Homes.**
**Cyllid grant a dderbyniwyd: £308,000**

Nod Balanced Lives for Care Homes oedd hybu lles corfforol, meddyliol a chymdeithasol preswylwyr oedd yn segur yn bennaf mewn pum cartref gofal yn ardal Iechyd Bae Abertawe.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Mae dysgu ac ymchwil yn cyfrannu'n sylweddol tuag at y ffordd mae'r sefydliad yn gweithredu ac mae'r GIE yn chwarae rhan allweddol yn hyn. Dangosodd ymchwil pan nad oedd rhaglen reolaidd ar waith, bu dirywiad yn iechyd a lles pobl hŷn gan waethygu yn sgil diffyg cyswllt a chefnogaeth cymdeithasol. Gan hynny, roedd cynaliadwyedd y gwasanaeth bob amser yn bwysig. Fodd bynnag, roedd y bwriad i ganolbwyntio ar ofal cymdeithasol ar yr adeg waethaf i'r trydydd sector, ac roedd cyflawni drwy wirfoddolwyr a/neu staff hyfforddi yn her wirioneddol. Roedd rhwystrau wrth recriwtio gwirfoddolwyr ar gyfer y Prosiect, a hyn yn bennaf yn sgil agweddau allanol y pandemig a'r argyfwng economaidd. O ganlyniad, bu i rai o'r syniadau ynghylch sut i gyflawni cynaliadwyedd newid yn ystod cyfnod gweithredu'r Prosiect.

Ar gyfer y grŵp targed hwn o bobl hŷn, mae Action for Elders yn awyddus i feithrin perthynas parhaus rhwng y gwirfoddolwr a'r unigolyn hŷn oherwydd mae'r berthynas yn rhan bwysig o'r cymorth cyffredinol. Mae'n hanfodol recriwtio gwirfoddolwyr sy'n gallu cynnig cymorth tymor hwy a mwy cyson, er mwyn iddyn nhw feithrin y perthnasau hynny. Mae hyn yn gofyn am hyfforddiant ac i wirfoddolwyr feddu ar feddylfryd gwahanol tuag at heneiddio, gydag agwedd gadarnhaol tuag at yr hyn y gall pobl hŷn ei wneud yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae'r derminoleg wedi'i haddasu fel bod 'gwirfoddolwyr' ar ran y sefydliad yn cael eu galw'n 'weithredwyr'.

Mae'r buddion a welwyd ac a werthuswyd drwy'r GIE wedi ategu ceisiadau'r sefydliad am gyllid. Er y dywedwyd bod yr amgylchedd ariannu yn heriol dros ben, caiff y dystiolaeth a gafwyd trwy'r GIE ei hystyried yn gadarnhaol. Mae'r sefydliad wedi ymgeisio am grant gwirfoddoli CGGC i helpu ariannu'r hyfforddiant a'r cymorth parhaus ac angenrheidiol ar gyfer y gwirfoddolwyr.

Bu cyrhaeddiad y Prosiect yn llawer uwch na'r bwriad ar y cychwyn, gan gydweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol ynghyd â'i ffocws gwreiddiol yn Abertawe ac mewn cartrefi gofal. Mae gwaith hirdymor drwy gytundeb masnachol gyda Charchar Parc yn parhau. Ar ddiwedd cyfnod adrodd y rhaglen, fe barhaodd y Prosiect i gynnig cymorth wyneb yn wyneb i dros 300 o unigolion yn wythnosol.

**BeActive RCT**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd: £472,000**

Roedd y Prosiect BeActive o dan arweiniad Interlink RCT fel menter ar y cyd rhwng chwe phartner cyflenwi craidd sy'n gweithio gyda grwpiau cymunedol ehangach i sefydlu 'Llwybrau Llesiant' sy'n canolbwyntio ar weithgareddau awyr agored a ddarperir gan sefydliadau cymunedol a gwirfoddol lleol. Roedd yn ategu'r seilwaith atgyfeirio cymunedol presennol ac yn ymwneud â dylunio ar y cyd gyda thrigolion y gymuned a chysylltu ag ystod o wasanaethau.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Mae ystod eang o weithgareddau yn parhau i gael eu cyflwyno'n uniongyrchol fel prosiectau gwaddol gan y partneriaid sydd ynghlwm. Roedd yr holl bartneriaid Prosiect yn awyddus i gynnal y gwaith a pharhau i feithrin cysylltiadau gyda'i gilydd. Gan hynny, mae cyfleoedd i'r gymuned leol gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau wedi'u cynnal ar gyfer yr hirdymor. Mae rhai unigolion oedd yn cymryd rhan ac ynghlwm â gweithgareddau'r Prosiect ers camau cychwynnol y GIE yn parhau i fod ynghlwm, gan arddangos cymryd rhan hirdymor mewn gweithgarwch corfforol. Mae cyfleoedd i gymryd rhan yn parhau i fod yn hygyrch. Mae rhai gweithgareddau am ddim, neu mae'r rheiny sy'n cymryd rhan yn talu symiau enwol i'r darparwyr er mwyn i'r gweithgareddau barhau.

Bu'r gwirfoddolwyr yn rhan allweddol o gyflawni cynaliadwyedd yn y Prosiect hwn. Mae rhai fu'n cymryd rhan yn y Prosiect bellach yn wirfoddolwyr, ac wedi derbyn hyfforddiant i arwain y sesiynau eu hunain. Mae nifer o'r grwpiau a'r gweithgareddau a sefydlwyd yn ystod y GIE wedi bod ar waith drwy gydol y rhaglen ac maen nhw bellach yn cynnal eu hunain[14], ac mewn rhai achosion wedi ffurfioli gyda chyfansoddiad, pwyllgorau, nawdd lleol a'r gallu i ymgeisio am gyllid. Mae sefydliadau partner wnaeth arwain y grwpiau'n wreiddiol yn gallu 'cymryd cam yn ôl', gan fod yn agored i gynnig cymorth pan fo'i angen hefyd.

Llwyddiant allweddol oedd bod Cymdeithas Dai'r Rhondda yn cydnabod effaith gadarnhaol BeActive ar les ei denantiaid ac mae wedi buddsoddi mewn swydd Iechyd a Lles llawn amser a pharhaol i sicrhau bod modd iddyn nhw gynnal y cynnig hwn yn barhaus. Arweinydd Prosiect y GIE yw deiliad y swydd, sy'n golygu bod dilyniant yn y perthnasau sydd wedi'u meithrin (gyda phartneriaid a'r rheiny sy'n cymryd rhan), a chaiff y profiad a'r weledigaeth a gafwyd trwy'r GIE ei gadw.

Mae'r Prosiect yn gadael gwaddol o fod wedi llunio llwybrau cyfeirio ymhlith y chwe phartner sydd ynghlwm â'r GIE ynghyd â gyda phartneriaid eraill. Mae yna hefyd waddol o ddysgu. Teimlodd arweinydd y GIE mai un o'r agweddau pwysicaf i'w gynnal yw'r dysgu sydd wedi'i ennill am weithio mewn partneriaeth: cydweithio gyda gwahanol sefydliadau sy'n gallu meithrin perthnasau gyda gwahanol gynulleidfaoedd targed, cefnogi llwybrau cyfeirio newydd a chymunedau mwy cysylltiedig.

[14] Ymhlith yr enghreifftiau mae Rygbi Cyffwrdd Hynod Rhondda (Rhondda Raptors), Social Strollers a Rhondda Valley Dippers

**Cyfeillion Cerdded Cymru**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £271,000**

Nod y Prosiect oedd hybu lles corfforol a meddyliol pobl hŷn 50+ oed, yn enwedig y rhai sydd mewn perygl o ynysu cymdeithasol a ffyrdd o fyw segur yn Ne-ddwyrain Cymru, Dinas-ranbarth Caerdydd a rhan o'r cymoedd, trwy weithgareddau cerdded a theithiau cerdded tywys mewn grŵp.

### Cynaliadwyedd yn 2024

Llwyddodd y Prosiect i gyflawni cynaliadwyedd drwy newidiadau i ymddygiadau unigol. Roedd hyn ledled tair lefel: unigolion, arweinwyr teithiau a phartneriaid. Cafodd y niferoedd eu hybu'n sylweddol yn ystod y 4$^{edd}$ flwyddyn. Roedd derbyn cyllid drwy'r Rhaglen CIE wedi helpu meithrin ymddiriedaeth ar lefel gymunedol a gyda sefydliadau lleol eraill megis Meddygfeydd, yn sgil y sicrwydd o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru.

Cafodd partneriaeth y Prosiect ei strwythuro gydag amcanion pendant. Y nod oedd cysylltu arweinwyr teithiau gyda chydlynwyr Living Streets. Fodd bynnag, bu i rai arweinwyr teithiau gysylltu gyda grwpiau cymunedol lleol gan nad oedd ffurfioldeb y broses o gysylltu gyda'r cydlynwyr yn apelio iddyn nhw.

Pan fu llai o weithgareddau wyneb yn wyneb yn ystod y pandemig, cafodd deunyddiau dogfen eu llunio ar y cyd â buddsoddi amser mewn lledaenu ymwybyddiaeth a gwybodaeth. Cafodd y targedau o ran hyfforddi unigolion eu bodloni. Mae sefydliadau partner yn parhau i fod yn weithredol, gyda grwpiau lleol yn dal i fod ar waith. Gan fod diffyg cydlynydd lleol erbyn hyn, mae'r cyfraddau ymateb wedi gostwng, ac ni fu modd casglu cymaint o ddata – mae ymatebion ansoddol ond does dim data rhifiadol cywir.

Mae llawer o'r deunydd ar-lein yn dal yn hygyrch a chaiff ei argraffu / rhannu mewn Meddygfeydd gan ddangos defnydd cynaliadwy a pharhaus o adnoddau. Mae tystiolaeth o ddylanwad ar sefydliadau eraill, ac mae sefydliadau patner wedi cymryd yr awenau dros a pharhau gyda rhai grwpiau cerdded.

Roedd y Prosiect o'r farn bod nifer o gyfleoedd i gysylltu ac ymgysylltu gyda Phrosiectau CIE eraill y gellid fod wedi manteisio arno'n fwy penodol o ran cynaliadwyedd.

**Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £475,000**

Cynlluniwyd y Prosiect i gynyddu gweithgarwch corfforol a lefelau lles meddyliol cysylltiedig ymhlith teuluoedd sy'n wynebu tlodi trwy ymgysylltu pwrpasol. Bu i StreetGames gynnig y gweithgaredd hwn mewn saith ardal ledled Cymru drwy drefniadau a ddatblygwyd ar gyfer y GIE. Roedd StreetGames yn gweithredu fel corff arweiniol ar y cyd â saith Partneriaeth Cyflenwi Lleol (CDLl) gyda 30 partner cyflawni. Cynlluniwyd pob CDLl i fynd i'r afael ag anghenion penodol a demograffeg ardal benodol.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Mae StreetGames yn parhau i gefnogi'r Sefydliadau Lleol y Gellir Ymddiried Ynddynt (LTO) sy'n arwain ar gyflenwi prosiectau lleol. Mae'r pwyslais ar gefnogi newid mewn ymddygiad yn hytrach na pharhau gyda gweithgaredd penodol. Ers 2020, bu swydd Swyddog Cymorth Codi Arian llawn amser yn StreetGames, sydd wedi darparu cymorth pwrpasol ar gyfer y partneriaid cyflawni lleol sydd ynghlwm â'r Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd (FEP), gan eu cefnogi i feddwl am eu hanghenion a sut i gynnal eu darpariaeth. Mae StreetGames yn cyflawni rôl brocer; cefnogi arweinwyr sy'n gweithio gyda Sefydliadau Lleol y Gellir Ymddiried Ynddynt i gyflawni cynaliadwyedd; a chynnig fforwm i wahanol sefydliadau barhau i gydweithio a rhannu dysgu.

Mae pum Sefydliad Lleol y gellir Ymddiried ynddynt wedi ymroi i barhau â'r gwaith ymgysylltu â theuluoedd y GIE ar ôl i'r prosiect ddod i ben. Mae sefydliadau wedi integreiddio cymorth teuluol yn eu gweithrediadau craidd. Dyma enghreifftiau o sut mae hyn wedi'i gyflawni:

- Swydd ddisgrifiadau i staff yn y Sefydliadau Lleol y gellir Ymddiried Ynddynt wedi'u diweddaru i adlewyrchu eu hymrwymiad i ddulliau ymgysylltu â theuluoedd sydd wedi'u datblygu yn y GIE. Er enghraifft, mae Hamdden Aneurin wedi penodi Swyddog Ymgysylltu Cymunedol sy'n gyfrifol dros hybu ymgysylltu â theuluoedd
- Cafodd cyllid iechyd cyhoeddus drwy Pwysau Iach, Cymru Iach ei ennill i gefnogi'r rhwydwaith ym Merthyr Tudful. Mae dulliau ymgysylltu â theuluoedd wedi'u hymgorffori / prif ffrydio yn y sefydliad.
- Mae gan Academi Gymnasteg y Cymoedd nodau cymdeithasol a chymunedol sy'n tanategu ethos a diwylliant gweithredu eu clybiau ac maen nhw'n parhau i gynnal gweithgareddau yn ystod y gwyliau gyda bwyd i deuluoedd.
- Goresgyn rhwystrau rhag gallu cymryd rhan, megis cynnig aelodaeth am bris gostyngol i ddefnyddio cyfleusterau hamdden. Mae sawl Sefydliad Lleol y gellir Ymddiried Ynddynt wedi datblygu ystafelloedd cit / esgidiau cymunedol llwyddiannus a mentrau llyfrgelloedd chwaraeon.
- Parhau i gynnig sesiynau gweithgarwch corfforol wedi'u hariannu gan gyllidebau craidd.

Mae'r data i ddeall a yw unigolion sy'n cymryd rhan yn y Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd yn parhau i gadw'n heini yn gyfyngedig, a bu'n her i StreetGames (sydd heb berthynas uniongyrchol gyda'r unigolyn sy'n cymryd rhan) gaffael data am unigolion wnaeth gymryd rhan, ac ar gyfer partneriaid cyflawni gydag adnoddau cyfyngedig. Fodd bynnag, mae dysgu o'r Prosiect yn dangos fod agwedd cyfeirio'r Prosiect Ymgysylltu â Theuluoedd wedi dod yn rhan annatod o helpu llunio dewislen gyfannol o gyfleoedd a gweithgareddau. Pan fo staff a'r rheiny sy'n cymryd rhan yn meddu ar y wybodaeth a'r ymwybyddiaeth gyffredinol o'r dirwedd leol, mae'n helpu i fanteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd o hybu iechyd a lles cyffredinol y teulu ac yn cynnig llwybrau ymadael i'r rheiny sy'n cymryd rhan allu cynnal eu gweithgareddau.

Mae StreetGames wedi bwrw iddi i rannu'r dysgu o'r GIE drwy gynnal digwyddiad dathlu wyneb yn wyneb a chyfarfod rhwydwaith, ynghyd â digwyddiadau rhwydweithio ar-lein. Bu i'r GIE alluogi StreetGames i roi model cyflawni ar brawf y gellir ei addasu neu ei ail-adrodd. Mae hyn yn llywio gwaith cyfredol: Ar hyn o bryd mae StreetGames yn sefydliad prawf sy'n cyflawni Prosiect Plant a Theuluoedd ar gyfer Chwaraeon Cymru fel rhan o Pipyn Actif.

**Tyfu gyda'n gilydd**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £295,000**

Prosiect tyfu bwyd i bontio'r cenedlaethau oedd Tyfu Gyda'n Gilydd a oedd â'r nod o hybu iechyd a lles oedolion hŷn agored i niwed a phlant ysgol gynradd. Hyn i gyd drwy greu llecynnau gardd addas i bawb yn yr awyr agored mewn pum safle llety gwarchod ac o dan ofal landlordiaid cymdeithasol cofrestredig mewn ardaloedd difreintiedig ledled De-ddwyrain Cymru.

**Cynaliadwyedd yn 2024**

Ni wnaeth yr ymagwedd o ran cynaliadwyedd newid yn ystod y GIE, gyda'r eithriad bod y staff Prosiect methu â chael pobl i fynd ati i greu'r gerddi yn ystod y pandemig fel y cynlluniwyd. Fodd bynnag, yn sgil y flwyddyn gyflawni ychwanegol, roedd modd i'r Prosiect ddal i fyny a helpu buddiolwyr i ennill sgiliau ymarferol yn ymwneud ag adeiladu a thyfu.

Mae pob un o'r deg safle tyfu a ddatblygwyd drwy'r GIE yn parhau i weithredu gyda phobl yn cymryd rhan weithredol. Mantais sefydlu gardd yw ei fod yn adnodd parhaol os caiff ei gynnal a'i gadw. Mae'r gerddi wedi cynnig mynediad i'r bobl a'r lleoedd 'priodol', gan eu bod nhw wedi datblygu mewn ardaloedd sydd ymhlith 20% uchaf Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Hyd yma, mae dau grŵp wnaeth gymryd rhan, un yng Nghaerdydd ac un yng Nghaerffili (rhan o Gymru Unedig), wedi dod yn gyfansoddol.

Mae gwaith y Prosiect wedi'i brif ffrydio'n llwyddiannus gan y sefydliadau partner ynghlwm. Mae Cymru Unedig yn ei ystyried fel ymyriad poblogaidd ymhlith eu staff a'u preswylwyr, ac mae uwch reolwyr wedi prynu i mewn i Gartrefi Dinas Casnewydd. Mae Cartrefi Dinas Casnewydd ac Age Connect Torfaen wedi diweddaru disgrifiadau swydd i ffurfioli rôl y staff yn cefnogi gweithgareddau yn y gerddi. Mae hyn yn lleihau'r risg o golli gwybodaeth ac ysgogiad drwy drosiant staff, a ddigwyddodd yn ystod y GIE, ond bu i uwch ymgysylltiad a chymorth ehangach alluogi i'r Prosiect barhau.

Er bod y Prosiect yn cael ei ymgorffori drwy waith gwahanol bartneriaid, mae staff Cadwch Gymru'n Daclus wedi gallu defnyddio rhywfaint o adnoddau i ail-ymweld â'r lleoliadau a chynnal perthnasau gyda phartneriaid, gan gynnig cymorth pan fo'i angen. Cychwynnwyd yr ymweliadau 'dilynol' ym mis Ebrill 2024 ac roedden nhw'n boblogaidd dros ben. Mae staff Cadwch Gymru'n Daclus wedi meithrin perthnasau gyda'r sefydliadau cynnal ac wedi gweld y buddion. Mae'r partneriaid hynny'n awyddus i gyflawni rhagor o waith yn y maes hwn, sydd wedi'i ystyried yn llwyddiant ysgubol.

Yn sgil yr amser maith oedd ar gael i'r GIE roedd modd cynnal amrywiaeth o wahanol weithgareddau yn ychwanegol i dyfu. Ymysg y rhain roedd gemau cymdeithasol, paned a sgwrs. Aeth preswylwyr 'Arweiniol' ati i roi cyfarwyddyd i eraill mewn grwpiau'n anffurfiol, rhannu sgiliau megis dangos i bobl sut i ddefnyddio 'apps', creu dyddiaduron straeon fideo, a chynnig arbenigedd digidol defnyddiol. Bu i breswylwyr gymryd rhan mewn hyfforddiant cynhwysiant digidol mewn dau safle yn ystod blwyddyn olaf y GIE. Dangosodd y dysgu ei fod wedi cymryd cryn dipyn o amser i ennyn diddordeb ymhlith y rheiny oedd yn cymryd rhan ar gyfer agweddau megis y cynnig hyfforddiant hwn, a ariannwyd gan sefydliadau cynnal.

Gyda chefnogaeth gyfredol sefydliadau cynnal ar gyfer y Prosiect hwn, gallant fynd ati i'w ddyblygu mewn mannau eraill. Mae gan sefydliadau cynnal megis cymdeithasau tai nifer o wahanol safleoedd y gellir eu gwella. I sicrhau llwyddiant hirdymor, dylid ymgynghori gyda grwpiau defnyddwyr o'r cychwyn cyntaf. Mae cynnig cyfle i bobl gymryd rhan yn y gwaith cynllunio a mapio'r safle Prosiect yn ei gwneud hi'n haws i oresgyn unrhyw rwystrau diweddarach, ac yn help i ennyn diddordeb unigolion i gymryd rhan a chynaliadwyedd.

**HAPPy**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £228,000**

Roedd y Prosiect hwn yn bartneriaeth rhwng Tŷ Tredegar (yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Mind Casnewydd, Growing Space a Duffryn Community Link. Roedd yn canolbwyntio ar iechyd meddwl ac anweithgarwch yn ardal Tŷ Tredegar, Casnewydd, sydd â lefelau uchel o amddifadedd gyda chyfran sylweddol o'r boblogaeth yn wynebu problemau iechyd. Bu i'r Prosiect ddefnyddio tiroedd Tŷ Tredegar i greu cyfleoedd i fanteisio ar barcdir a choetir i hybu lles corfforol a meddyliol.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Mae cydnerthedd sefydliadol yn nodwedd allweddol sy'n ymwneud ag effaith a gwaddol y Prosiect hwn, gan gynnwys ystwythder o ran dyraniad adnoddau staff. Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol fframwaith cynaliadwyedd wedi'i ymgorffori fel rhan o'i model gweithredu, a ddefnyddiwyd ar gyfer y Prosiect hwn.

O ganlyniad i newidiadau staffio yn yr holl sefydliadau partner, ni chafodd data ei rannu fel y bwriadwyd. Fodd bynnag, caiff y dysgu o'r Prosiect ei ychwanegu at strategaeth newydd yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol 'Mynediad i Natur', o ystyried y cydweithrediad rhwng y gweithgareddau a'r buddion i'r rheiny sy'n cymryd rhan.

Mae llywodraethu cadarn yn golygu bod yr holl brosiectau'n cyflawni proses 'giât' swyddogol – pan fo'r Prosiect wedi llwyddo i oresgyn ei giât olaf, bydd adroddiad ffurfiol ynghylch yr uwch dîm rheoli gyda manylion o'i werthusiad. Caiff gwybodaeth gynyddol am y Prosiect a'i werthusiad ei bennu gan yr Uwch Dîm Rheoli, gan gydnabod bod prosiect sylweddol fel hwn yn cynnig mwy o gyfle i rannu dysgu sefydliadol, gan gynnwys adrodd ar yr hyn nad oedd efallai mor effeithiol.

Mae gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol dîm prosiect canolog gydag adroddiadau effaith cynaliadwyedd wedi'u cynhyrchu ar ôl i'r Prosiect ddod i ben ym mlwyddyn 2 (2025) a blwyddyn 5 (2029). Mae yna hefyd ystorfa ganolog o astudiaethau achos sydd wedi'u cyflwyno ac sy'n hygyrch i sefydliad ehangach yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol. Disgrifiodd y Prosiect gynaliadwyedd drwy ddysgu fel 'lladrata gyda balchder'.

Cafodd gweithgarwch ymgysylltu gwirfoddolwyr ei gynnal a bu effaith sefydliadol amlwg, er enghraifft hyfforddiant cymorth cyntaf iechyd meddwl wedi'i gyflawni. Roedd hyn o ganlyniad i'r Prosiect yn cyfrannu at yr achos busnes sefydliadol ehangach. Cafodd partneriaethau eu cynnal hefyd, wedi'u harddangos drwy gydweithio ar weithgareddau a darparu cyd-gymorth mewn gwahanol feysydd, gan gynnwys ar geisiadau am gyllid.

Gan ei fod yn sefydliad cenedlaethol, mae ffrydiau cyllid megis y GIE yn fodd i'r sefydliad ganolbwyntio ar feysydd penodol. Y bwriad oedd sicrhau bod y Prosiect hwn yn seiliedig ar weithgareddau ond bu'n ymwneud mwy ag iechyd meddwl a lles yn y pen draw.

**Healthy and Active Newport**
**Derbyniwyd Cyllid Grant o £460,000**

Roedd y Prosiect yn ymwneud â grŵp o wyth ysgol a'u cymunedau estynedig mewn rhaglen chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd pwyslais ar wella sgiliau a gallu gweithlu’r ysgolion, a datblygu rhwydwaith o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r ddarpariaeth. Y disgyblion cafodd eu targedu oedd y rhai nad oedden nhw’n cadw’n heini’n rheolaidd a'r rhai nad oedd eu teuluoedd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol. Roedd y Prosiect yn gydweithredol ac yn dilyn COVID-19, fe gafodd ei chyflawni’n ddigidol.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Ni chafodd gweithgarwch craidd y Prosiect ei gynnal oherwydd doedd dim cyllid pellach ar gael, a oedd ei angen i ryddhau staff dysgu i gyflawni hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd deilliannau Prosiect parhaus.

Gan ymdrin â’r data yn ofalus, bu i sgorau meintiol ddangos cynnydd bach yn sgorau gweithgarwch corfforol a lles meddyliol plant. Beth oedd efallai’n fwy calonogol oedd tystiolaeth gan grwpiau ffocws a ddangosodd bob plant bellach yn ymwybodol o fuddion cadarnhaol gweithgarwch corfforol ac nid oes angen iddo fod yn chwarae chwaraeon yn unig. Gall hyn fod yn fantais sylweddol o ran annog mwy o’r disgyblion i barhau eu lefelau o weithgarwch corfforol yn dilyn y sesiynau CIE. I helpu cynnal cymryd rhan tymor hwy, roedd gan yr holl ddisgyblion CIE daleb aur i’w ddefnyddio yn Newport Live i gymryd rhan mewn gweithgaredd megis tenis, gan helpu pobl i fanteisio ar gyfleusterau mae’n bosibl nad oedden nhw wedi manteisio arnyn nhw’n flaenorol. Cafodd cynghrair pêl-droed ar ôl ysgol i enethod ysgol gynradd ei sefydlu fel ymateb i farn disgyblion. Erbyn haf 2024 roedd 24 ysgol ynghlwm ac roedd wedi cynnal tair gŵyl gyda 600 o enethod yn cymryd rhan. Mae Ystafell Esgidiau Casnewydd yn parhau i fod ar waith mewn nifer o leoliadau ledled y ddinas.

Aeth y Prosiect i’r afael â diffyg hysbys o athrawon heb hyder i gyflwyno sesiynau gweithgarwch corfforol drwy ddarparu hyfforddiant, cyfarpar, llyfrau gwaith sesiynau a recordiadau fideo iddyn nhw. Dywedodd 90% o’r 64 o athrawon a dderbyniodd gefnogaeth eu bod nhw wedi hybu eu hyder o ran cyflwyno gweithgarwch corfforol. Daeth fideos *Sut I* y Prosiect yn rhan o adnoddau’r Hwb ar gyfer maes dysgu a phrofiad iechyd a lles y Cwricwlwm i Gymru, gan adael gwaddol ar gyfer y gymuned dysgu a darparwyr gweithgareddau.

Bu i’r hyfforddwyr lles ymroddgar wnaeth y GIE eu defnyddio feithrin perthynas dda gydag ysgolion, gan ddod i’w hadnabod yn dda. Adroddodd staff y Prosiect bod meddu ar gysondeb o ran staff “wir yn effeithiol”, gydag ysgolion yn gofyn i aelodau staff ddychwelyd i gefnogi carfanau newydd o ddisgyblion. Bellach mae rhai ysgolion yn talu’r GIE i gynnal diwrnodau cyfoethogi, gan gynnig cyfle i blant gymysgu gydag ysgolion eraill, ymweld â chyfleusterau megis y felodrom ac elwa o weithgareddau bwyta’n iach.

Drwy’r Prosiect, fe wnaeth y tîm ddysgu ei fod yn bwysig meddu ar staff gyda gwahanol sgiliau, o gefndiroedd addysg *a* chwaraeon a gyda’r arbenigedd i gynnal trafodaethau gwybodus gydag ysgolion a phartneriaid mewn gwahanol adrannau awdurdodau lleol. Mae hyn wedi dylanwadu ar brosesau recriwtio. Mae’r sgiliau sydd eu hangen bellach wrth benodi aelodau tîm yn seiliedig ar ymddygiadau ac agweddau yn hytrach na chymwysterau penodol, gyda’r tîm Chwaraeon a Lles cyfredol yn gallu hyfforddi pobl pan fo’i angen yn fewnol. Erbyn hyn caiff y dull hwn ei ddefnyddio ledled rhaglenni Newport Live ehangach ac mae mwy o bwyslais ar iechyd a lles a chysylltiad â’r tîm Teulu’n Gyntaf yn ogystal â datblygu chwaraeon. Mae’r tîm cyfan wedi cwblhau hyfforddiant maeth bwyd ac yn ymgorffori gweithgareddau byw’n iach yn eu digwyddiadau’r haf.

**Healthy Body Healthy Mind**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £449,000**

Roedd Healthy Body Healthy Mind o dan arweiniad Women Connect First ac roedd ar waith yng Nghaerdydd a'r Fro. Roedd yn ennyn diddordeb merched Croenddu, Asiaidd a Lleiafrifol Ethnig a'u teuluoedd mewn gweithgarwch corfforol a ffyrdd iach o fyw.

**Cynaliadwyedd yn 2024**

Fel y disgrifir gan staff y Prosiect yn eu hadroddiad terfynol i Lywodraeth Cymru, "*un o brif lwyddiannau strategol y Prosiect HBHM… oedd newid diwylliant ymhlith merched ethnig lleiafrifol ac ein cymunedau… Gallwn ddweud gyda balchder bod ein merched yn edrych ymlaen at ein rhaglen weithgareddau wythnosol, boed hynny ar-lein neu wyneb yn wyneb, ac mae ganddyn nhw drefn benodol cynyddol o weithgarwch corfforol, chwaraeon, ffitrwydd a lles wedi'u hymgorffori yn eu bywyd dydd i ddydd."* Soniodd y cyfwelai am sut mae'r Prosiect wedi ymgorffori ym mywydau'r rheiny oedd yn cymryd rhan, gyda grwpiau WhatsApp am y Prosiect wedi'u sefydlu a staff Women Connect First yn aros mewn cyswllt gyda'r rheiny oedd yn cymryd rhan. Mae hyn yn ymestyn eu hadnoddau sefydliadol eu hunain, ond gyda'r arsylwad mai'r peth pwysicaf i'w gynnal o'r GIE yw newidiadau ymddygiadol a bywyd dydd i ddydd y buddiolwyr.

Fodd bynnag, mae yna risgiau i'r llwyddiant hwn, gyda staff yn adrodd bod costau byw yn cael effaith gwirioneddol ar allu pobl i dalu tâl bach hyd yn oed i fynychu sesiynau a theithio i weithgareddau. At hyn, mae'r sefydliadau partner hynny wnaeth gefnogi'r Prosiect yn ystod y GIE a thu hwnt drwy gynnig sesiynau am ddim neu gost isel o dan bwysau cynyddol i fantoli eu cyfrifon.

Bu gwirfoddolwyr yn allweddol i gynnal gweithgareddau, yn dilyn y gefnogaeth wnaethon nhw ei dderbyn drwy HBHM. Mae dau unigolyn wnaeth gymryd rhan a ddysgodd sut i nofio drwy'r Prosiect bellach wedi hyfforddi a chymhwyso fel hyfforddwyr nofio drwy Brifysgol Metropolitan Caerdydd. Bellach mae 56 o ferched o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn gallu hyrwyddo a chynnig cyngor iechyd, lles a/neu hamdden i, a/neu ar ran, eu cyfoedion.

Mae Women Connect First wedi elwa o ddysgu a datblygu drwy'r GIE, nid yn unig drwy eu gwerthusiad wedi'i gomisiynu ond drwy'r profiadau newydd yn monitro a gwerthuso ac ysgrifennu'r achos busnes ar gyfer y cais gwreiddiol. Ar lefel Rhaglen, roedd y Prosiect hwn yn teimlo bod "diffyg cynaliadwyedd ar ran yr ariannwr"; roedd natur 'stop-cychwyn' o ymgeisio am gyllid ar gyfer prosiectau llwyddiannus sydd wedi dangos effaith gadarnhaol yn heriol. Hoffai'r Prosiectau ddeall yn well beth sy'n digwydd o ganlyniad i'r GIE a'r dysgu a gafodd ei gynhyrchu.

Ym Mlwyddyn 3, llwyddodd Women Connect First i ennill cyllid ychwanegol gan y Sefydliad Rosa / Ymddiriedolaeth Smallwood i gynnal gweithgareddau corfforol ar gyfer genethod ifanc, sydd wedi caniatáu iddo leddfu rhai o broblemau goralw ar gyfer gweithgareddau HBHM drwy gyfeirio merched ieuengach i'r Prosiect hwnnw yn lle. Gan edrych tua'r dyfodol, mae Women Connect First yn ystyried cydweithio gydag eraill i ymgeisio am gyllid; er enghraifft, yn dilyn sesiynau blasu gydag Archery GB, mae yna alw am sesiynau dilynol.

Roedd deg partner wedi gwneud newidiadau i wella eu hymarfer i ymgysylltu gyda merched ethnig lleiafrifol a'u teuluoedd erbyn i bedair blynedd y Prosiect ddod i ben. Bu i bump o'r sefydliadau / partneriaid hynny wneud y newidiadau hynny ym mlwyddyn 4, gan awgrymu nad oes modd cyflawni hyn ar frys. *"Uchafbwynt y chwarter oedd llwyddo o'r diwedd i ail-gychwyn y dosbarthiadau nofio hir-ddisgwyliedig i ferched ar ôl eirioli dros ddarpariaeth i ferched yn unig am dros ddwy flynedd… gyda'r gwersi a ddysgwyd fel a ganlyn a) gellir gwneud newidiadau i wasanaethau prif ffrwd drwy'r math hwn o Brosiect, ond hefyd b) mae angen digonedd o amser a dyfalbarhad ar gyfer y math hwn o newid."*

Bu hyn yn llwyddiant allweddol. Mae gwersi nofio yn parhau i gael eu cynnig yng Nghaerdydd gyda nifer fawr o alw a phobl yn cymryd rhan: er enghraifft, bu i 40 o ferched gadw lle ar ddau gwrs deg

wythnos gyda 67 o ferched eraill ar y rhestr aros. Bu i staff y ganolfan hamdden nodi bod angen mwy o athrawon nofio benywaidd i ddysgu oedolion sut i nofio. Bu i hyn arwain at gynnal cwrs athrawon nofio i ferched yn unig yn ddiweddar. Mae deilliannau staff cadarnhaol wedi'u cofnodi, megis hwb yn hyder hyfforddwyr nofio i gyflwyno i gynulleidfa eang gyda gwahanol ieithoedd a'r gallu i oresgyn rhwystrau cyfathrebu. Ymhlith yr enghreifftiau eraill mae tîm dieteg Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro yn defnyddio cyrsiau maeth cymunedol HBHM fel astudiaeth achos er mwyn ymestyn y ddarpariaeth hon i ardaloedd eraill yng Nghaerdydd. Mae staff Prosiect yn cydweithio gyda'r tîm dieteg yn barhaus, gan ddylunio cyrsiau iechyd a maeth pwrpasol sy'n briodol yn ddiwylliannol ar gyfer cymunedau ethnig lleiafrifol a chynnig cymorth i fynd i'r afael â phroblemau megis clefyd siwgr, gordewdra a maeth ar gyfer y rheiny sy'n 50+.

**Agor Drysau i'r Awyr Agored**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £285,000**

Nod y Prosiect hwn oedd cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol a hybu lles meddyliol ymhlith cyfranogwyr â phroblemau iechyd meddwl a chorfforol, trwy brosiect prawf presgripsiynu cymdeithasol ar y cyd, gan weithio gyda phartneriaid o'r sectorau awyr agored ac iechyd yng Ngogledd Cymru.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi prif ffrydio cynaliadwyedd ynghlwm â'u holl waith. Bu'r Prosiect hwn yn canolbwyntio ar grwpiau cynaliadwy ac uwchsgilio partneriaid iechyd, gan ddefnyddio llwybrau at waith fel fframwaith.

Mae angen cyflawni gwaith dilynol manwl o ran newid ymddygiad buddiolwyr, drwy fyfyriwr PhD yn ail-ymweld â gwaith a gyflawnwyd ar y cyd â Phrifysgol Cymru.

Roedd y Prosiect yn ennyn dylanwad polisi ar sefydliadau eraill. Yn benodol, mae Timau Iechyd Cymunedol wedi cymryd yr awenau dros hyn fel cysyniad newydd. Daeth Awdurdodau Lleol (Gwynedd ac Ynys Môn) yn eiriolwyr therapi grŵp sylweddol drwy annog pobl i fentro i'r awyr agored, a chafodd hyn ei hwyluso drwy roi gweithdrefnau gweithredu safonol ar waith gan fod hwn yn fodel gweithredu newydd iddyn nhw. Mae'r Prosiect yn ystyried gwerth cymdeithasol gwych o'r bartneriaeth.

O ran sgiliau gweithlu, er eu bod nhw'n llawrydd, aeth y tîm 'y tu hwnt i'r galw', gan gadw mewn cyswllt a chyflawni hyfforddiant ychwanegol mewn meysydd megis iechyd meddwl. Cafodd sgiliau gwirfoddolwyr a chleientiaid eu hybu, gan gynnwys drwy ymwybyddiaeth o lwybrau a hanes lleol, gan arwain at gymhwyster mewn arweinyddiaeth awyr agored a chymwysterau hyfedredd a ddarperir trwy sefydliad hyfforddi cenedlaethol gyda dull pwrpasol. Aeth y cyfle hwn y tu hwnt i gleientiaid i gynnwys hyfforddi gweithwyr cymorth ac uwchsgilio partneriaid. Roedd yn hwyluso datblygiad gyrfa personol gweithlu'r sefydliad ei hun.

Mae amcanion y Prosiect yn cael eu cyflwyno'n barhaus yng Ngogledd Iwerddon ac ardaloedd yn Lloegr. Arweiniodd y Rhaglen CIE at hyn, gan ganiatáu i'r model ehangu. Mae yna 12 rhanbarth ledled y DU yn cynnal prosiectau presgripsiynu cymdeithasol erbyn hyn.

Drwy'r ddamcaniaeth newid ar gyfer y Prosiect hwn, ac yn dilyn adolygiad strategaeth ehangach y Bartneriaeth Awyr Agored, mae hyn wedi arwain at chwe rhaglen graidd, gydag un o'r rheiny yn Iechyd a Lles. Mae'r sefydliad yn parhau i gynnal sesiynau dysgu cyson fel rhan o strategaeth y sefydliad, gan gynnwys grŵp dysgu ar y cyd y DU.

Mae'r Prosiect CIE hwn wedi ategu at gydnabyddiaeth ehangach o bresgripsiynu cymdeithasol. Mae cynaliadwyedd dros gyfnod y Prosiect wedi cynyddu, yn enwedig ynghylch cyllid amgen ar gyfer parhau ac addasu, a gwella o ran prif ffrydio ond nid yw hyn ledled y sector cyfan hyd yma.

**Llysgenhadon Chwarae Cymru**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £216,000**

Roedd gan y Prosiect nodau cyflenwol i hyfforddi pobl ifanc 14-19 oed i ddod yn Llysgenhadon Chwarae a darparu llwybr at gymhwyster a lleoliad gwaith yn y maes Chwarae. Roedd gwaith pellach i'w gyflawni i alluogi Llysgenhadon Chwarae i gynnal cyfleoedd chwarae ar draws Caerdydd a Bro Morgannwg.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
O'r cychwyn, roedd y Prosiect o'r farn nad oedd cynaliadwyedd yn golygu y byddai'r Prosiect yn parhau, o ystyried y byddai'r cyllid yn dod i ben. Roedd yn ystyried cynaliadwyedd yn fwy fel newid meddyliau ar lefel awdurdod lleol i gefnogi gweithgarwch cymunedol a meithrin rhwydweithiau cymunedol, gan greu cymunedau sy'n cynnig mwy o gyfleoedd chwarae ac yn galluogi hygyrchedd cymunedol. Bu i effaith COVID-19 newid y safbwynt o ran cynaliadwyedd i gychwyn trwy symud i gynnig atodol ar-lein.

Datblygodd Chwarae Cymru ddeunyddiau i gynnal gweithgareddau ar lefel leol, drwy awdurdodau lleol ac yn eang ledled Iechyd Cyhoeddus Cymru. Yn ogystal â chyflawni parhaus, cafodd perthnasau rhwng partneriaid eu cynnal hefyd.

O ganlyniad i gydweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru mae 'chwarae' yn rhan o'r dirwedd ehangach, sydd yn ei dro wedi hybu ei bwysigrwydd ac wedi helpu gyda chyllid. Er nad oedd yn newid y mater cynaliadwyedd, fe wnaeth sicrhau trafodaethau a gofalu bod ymgysylltu'n llawer cyflymach. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar beth ellir ei ddysgu, sut gellir ei gynnal, a'r ffordd orau o drosglwyddo dysgu. Roedd gan y sefydliad amcan pendant a bu iddyn nhw ei ymgorffori'n llwyddiannus yn yr amgylchedd polisi ehangach fel syniad prif ffrwd.

Parhaodd y Swyddog Prosiect yn y rôl am chwe mis wedi i'r cyllid ddod i ben er mwyn caffael dysgu. O ganlyniad, cafodd tri allbwn ei gyflawni – cwrs hyfforddiant chwarae, rhwydwaith chwarae cymunedol, a phecyn cynllun chwarae lleol. At hyn, cafodd llysgenhadon chwarae cymunedol lleol eu penodi ledled Cymru. Mae logo'r GIE yn ymddangos ar yr holl ddeunyddiau a chyhoeddiadau.

Roedd y Rhaglen CIE yn annatod i'r Prosiect hwn. Heb y rhaglen, ni fyddai capasati wedi bod ar waith, er bod y galw yn amlwg yno. Yn dilyn hynny, bu buddion a fwriadwyd ac anfwriadol i fuddiolwyr drwy gynnig cyfleoedd i ddatblygu eu gyrfaoedd a datblygu'r rhaglen ymhellach. O ganlyniad i'r GIE, mae perthnasoedd gwell wedi'u meithrin gyda Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Sporting Memories**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £461,000**

Roedd Sporting Memories yn cefnogi lles meddyliol a chorfforol pobl dros 50 oed gan ddefnyddio grym chwaraeon i ymgysylltu â phobl sy'n byw gyda dementia neu iselder, neu a oedd wedi'u hynysu o'r gymdeithas yn Ne Cymru.

**Cynaliadwyedd yn 2024**

Mae 66% o'r clybiau a gafodd eu creu ynghlwm â'r Prosiect hwn yn dal i fod ar waith ac yn cyflawni yn yr ardaloedd awdurdodau lleol. O ystyried caiff mwyafswm y costau sefydlu ei wario ar hyfforddi gwirfoddolwyr, mae'r model hwn yn dibynnu ar seilwaith cadarn y sefydliad cenedlaethol ar gyfer agweddau megis marchnata, cymorth ar lawr gwlad, cymorth hollgynhwysol i glybiau, a gwirfoddolwyr.

Bu i'r estyniad i gyllid y GIE ym mlwyddyn 4 gefnogi adennill hydyniad ar ôl y pandemig, ar y cyd â chynllunio hanfodol llwyddiannus gan ddau gydlynydd yn ystod y cyfnod COVID-19. Roedd grŵp llywio o sefydliadau partner yn cynnig lefelau amrywiol o gymorth yn amrywio o gyllid 'mewn da' i gymorth ymarferol gyda chyfleusterau.

Cafodd y Swyddog/ cydlynydd Prosiect ei ariannu drwy gronfeydd wrth gefn y sefydliad, a wnaeth alluogi cyfle i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd cyllid yn genedlaethol. Caiff y rôl hon ei hystyried yn allweddol ar gyfer cynaliadwyedd er ei bod yn dibynnu ar ffynonellau cyllid eraill.

O ran dysgu sefydliadol, bu iddyn nhw ganfod bod gweithgarwch gwirfoddol cryfach, rhyngweithio rhwng clybiau a phwyslais ar Gymru yn fodd iddyn nhw ymestyn y gweithgarwch. Roedd diwylliannau a ffyrdd o fyw mewn rhanbarthau yng Nghymru yn wahanol i genhedloedd eraill, hyd yn oed lle'r oedd damcaniaeth newid yn parhau i fod yr un fath. Mae angen deall yn gyfan gwbl y ffurf cyflawni sydd ei angen ar gyfer gwahanol leoedd. Mae newidiadau polisi yn y sefydliad arweiniol yn golygu bod y dull hwn bellach yn rhan o'u dull cyflawni ehangach.

Fel y nodwyd yn ei adroddiad cynaliadwyedd, mae'r Prosiect yn ymroi i sicrhau bod Clybiau Cymunedol Sporting Memories yn parhau ledled Cymru ynghyd ag yn ymestyn ei gyrhaeddiad i gefnogi rhagor o bobl hŷn.

**Super Agers**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £393,000**

Cynhaliwyd Prosiect Super Agers ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Ei ffocws oedd datblygu cyfleoedd gweithgarwch corfforol i bobl hŷn 50+, rhai ag anghenion gofal ychwanegol. Byddai llawer o gyfleoedd yn cael eu galluogi trwy hyfforddi gwirfoddolwyr o bob oed, gan gynorthwyo cynaliadwyedd y tu hwnt i'r GIE. Pwysleisiodd y Prosiect ar ddulliau ataliol i ategu strategaethau lleol a chenedlaethol ehangach gyda'r nod o gefnogi pobl hŷn.

**Cynaliadwyedd yn 2024**

Er na wnaethon nhw ymgeisio am gyllid y GIE hyd at y bedwaredd flwyddyn, llwyddodd y Prosiect i gyflawni cryn dipyn o ran cynaliadwyedd. O'r cychwyn, bu i'r Prosiect gynnig ystod o weithgareddau a oedd ynghlwm yn hytrach nac ar wahân i wasanaethau eraill y Cyngor ac roedd y rhain hefyd yn rai i bobl o bob oedran.

Yn sgil y pandemig, newidiodd yr ymagwedd tuag at gynaliadwyedd drwy ddatblygu adnodd 'Actif yn y cartref'. Defnyddiwyd methodolegau digidol, ac roedd y gweithgareddau'n cyd-fynd gydag ymdrechion y trydydd sector. Aeth y Prosiect ati i greu ei hunaniaeth ei hun a wnaeth helpu i ddenu pobl i gymryd rhan a meithrin ymddiriedaeth, gan gynhyrchu más critigol. Aeth pob awdurdod lleol ati i weithredu eu dulliau eu hunain yn unol â diwylliant a ffyrdd o weithio eu sefydliad a'u hardal. Roedd y penderfyniad i beidio â manteisio ar yr estyniad cyllid yn un ar y cyd rhwng yr awdurdodau lleol. Roedden nhw'n teimlo bod angen lefel o ymrwymiad o fewn eu priod sefydliadau 'rhiant', nad oedd yn bosibl i'w gyflawni yn dilyn y pandemig.

Llwyddodd y GIE i gyflawni hygrededd gyda'r Bwrdd Iechyd gan sbarduno trafodaethau cadarnhaol gyda phartneriaid. Llwyddodd hefyd i feithrin perthnasoedd o fewn yr awdurdodau lleol, yn bennaf ledled y meysydd gofal cymdeithasol a hamdden. O ganlyniad, darparwyd cyllid prif ffrwd drwy'r gwasanaeth Gofal i Oedolion. Cafodd hyn ei ffafrio i gyllid Llywodraeth Cymru, yn enwedig pan fo'r gofynion adrodd yn wahanol i ofynion yr awdurdodau lleol eu hunain.

Pwysleisiodd y Prosiect bwysigrwydd arweinyddiaeth o safon er mwyn meithrin ystyriaethau cynaliadwyedd o'r cychwyn cyntaf, ac yna'i gyflawni.

**Blynyddoedd Cynnar Actif Cymru**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £442,000**

Nod y Prosiect hwn oedd pontio'r bwlch mewn gwybodaeth am lythrennedd corfforol i blant o dan 4 oed mewn gwahanol leoliadau ledled Cymru, gan ategu egwyddorion Chwarae i Ddysgu, a chreu rhaglenni cynaliadwy o weithgarwch corfforol i blant ac oedolion er mwyn gwella eu llythrennedd corfforol a'u lles meddyliol.

**Cynaliadwyedd yn 2024**
Mae'r Prosiect wedi parhau i rannu gwaddol ei waith ac wedi buddsoddi y tu hwnt i gyfnod ariannu'r GIE. Er bod rhai gweithgareddau'n rhan o'r cynllun cychwynnol, roedd rhai eraill yn newydd ac yn seiliedig ar ddysgu ychwanegol, er enghraifft gweithgareddau Babi Actif Adref i fabanod 0-8 mis. Bu i hyfforddiant i ymarferwyr helpu atgyfnerthu'r neges o bwysigrwydd symud. Mae ymarferwyr o lu o asiantaethau / grwpiau wedi'u cynnal ledled meysydd gwasanaeth ac mae ymdrechion casglu data yn parhau lle'n bosibl, gan gael eu holrhain trwy Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r sefydliad yn parhau i gydweithio gydag ysgolion ar lythrennedd corfforol ac mae hefyd wedi cysylltu gyda phrosiectau tebyg mewn gwledydd eraill. Buddsoddwyd llawer mewn perthnasoedd, a hefyd bu i'r sefydliad gyflwyno tystiolaeth i'r Senedd o bwysigrwydd symud a 'hyrwyddwyr' symud.

Fe wnaeth y Prosiect ganiatáu i'r sefydliad ddarparu cynnig llawer ehangach. Roedd y GIE yn ysgogiad ar gyfer twf yn y nifer o'r aelodau a'r sefydliad ei hun. Mae partneriaid hefyd wedi cyfrannu tuag at gynaliadwyedd. Er enghraifft, pan ddaeth cyllid y GIE i ben, fe wnaeth rhai awdurdodau lleol barhau i dalu am sesiynau. Mae'r holl adnoddau a luniwyd ar ffurf ddigidol, ac mae un awdurdod lleol wedi datblygu 'app' yn ogystal. Mae ymarferwyr yn parhau i gyfeirio at waddol y GIE, ac roedd Prosiect y GIE yn sbardun ar gyfer ystod o agweddau gwaddol cadarnhaol.

**Cerdded Er Budd Lles Gorllewin Cymru**
**Cyllid Grant a Dderbyniwyd £363,521**

Roedd y Prosiect yn gweithredu yn Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin a Cheredigion, dan arweiniad Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Trwy gerdded, y nod oedd i unigolion ddod yn fwy egnïol yn gorfforol, gan ganolbwyntio ar y rhai sy'n byw bywydau eisteddog neu gymharol anweithgar.

**Cynaliadwyedd yn 2024**

Ers cychwyn 2024, dydy'r Prosiect heb lwyddo i ennill cyllid pellach ac ar adeg y cyfweliad cynaliadwyedd, roedd y seilwaith yn ymwneud â'r Prosiect (tri chydlynydd, gwefan a'r brand ar y cyd) wedi'i ddatgymalu ar lefel ranbarthol. Collwyd rhywfaint o fomentwm a'r ddarpariaeth gwasanaeth o ganlyniad i'r trosiant yn y swyddi Cydlynwyr Cerdded.

Fodd bynnag, yn dilyn seibiant, cafodd rhai agweddau o'r Prosiect eu hadfywio ac maen nhw'n parhau i fod ar waith ledled y tri awdurdod lleol. Mae grwpiau cerdded yn parhau i weithredu yn Sir Benfro, gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn cynnig hyfforddiant ac yn cefnogi recriwtio gwirfoddolwyr newydd. Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn parhau i gynnal swydd ar gyfer Cydlynydd Cerdded a oedd mewn lle cyn y GIE.  Mae swydd Cydlynydd Cerdded y parhau i fod yng Ngheredigion, wedi'i ariannu'n gyfredol drwy Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU [15]. Yn Sir Gaerfyrddin, drwy gymorth y cyngor drwy Chwaraeon a Hamdden Actif, mae swyddogion yn cynnal grwpiau cerdded. Er bod hyn yn gadarnhaol, teimlwyd gyda'r lefel briodol o gymorth, byddai ymagwedd ranbarthol ar y cyd yn fwy cadarn a chafwyd dysgu o weithio gyda phartneriaid ledled rhwydwaith ehangach.

Bu i Brosiect y GIE eu caniatáu hefyd i brynu offer a chyfarpar megis polion cerdded a phecynnau cymorth cyntaf, a roddwyd i'r grwpiau cerdded pan ddaeth y Prosiect i ben.

Mae dysgu o'r GIE wedi llywio gwaith parhaus. Cyflwynwyd canfyddiadau o'r gwerthusiad lleol i'r gweithlu ehangach yn y sefydliad arweiniol, gan rannu cipolwg ar ffyrdd cynhyrchiol o weithio ledled rhaglenni ehangach. Ymhlith yr enghreifftiau mae mwy o ymwybyddiaeth o'r rhwystrau trafnidiaeth mae pobl yn eu hwynebu, a'r cyfraniad posibl a ellir ei wneud drwy wirfoddolwyr cymunedol, a oedd yn arweinwyr cymwys dros ben ac yn cynnig gwasanaeth cadarn. Mae tystiolaeth gref hefyd o'r gwerthusiad lleol o'r buddion i'r rheiny wnaeth gymryd rhan a'r gwirfoddolwyr yn sgil cymryd rhan yn y rhaglenni cerdded.

Mae asesiad y Prosiect yn nodi y bydd angen rhywfaint o gyllid bob amser i reoli grwpiau'n ddiogel a chynnig hyfforddiant a chymorth i wirfoddolwyr, gan gynnwys treuliau gwirfoddolwyr mewn rhai achosion. Gyda'r sefydliadau partner yn canfod yr adnodd hwn yn fewnol neu drwy gyllid tymor byr ar hyn o bryd, mae'n aneglur i ba raddau y gellir cynnal darpariaeth rhaglen o deithiau iechyd yn yr hirdymor. Yn eu hadroddiad gwerthuso terfynol, mae'r Prosiect yn cydnabod nad oedden nhw wedi gallu meithrin y cysylltiadau gyda gofal iechyd sylfaenol roedden nhw wedi'i obeithio.  Fodd bynnag, mae cysylltiadau â'r sector gwirfoddol a 'chysylltwyr cymunedol' wedi helpu i gynnal rhai o'r grwpiau.

[15] Ceredigion Actif Health Intervention Programmes